# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Dyddiad ac Amser

**2.00 y.h., DYDD GWENER, 26AIN MAI, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol / Virtual Meeting**

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni***

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 19/05/23)

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**

Aelodau Cyngor

Cyng. Jason McLellan - Cyngor Sir Ddinbych
Cyng. Llinos Medi Huws - Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Charlie McCoubrey - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyng. Mark Pritchard - Cyngor Wrecsam
Cyng. Ian Roberts - Cyngor Sir y Fflint
Cyng. Dyfrig L Siencyn - Cyngor Gwynedd

Aelod Eryri

Cyng. Annwen Hughes – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Prif Swyddogion

Alwen Williams – Prif Weithredwr y Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Dafydd Gibbard - Cyngor Gwynedd
Dylan Williams - Cyngor Sir Ynys Môn
Rhun ap Gareth - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Neal Cockerton - Cyngor Sir y Fflint
Graham Boase - Cyngor Sir Ddinbych
Ian Bancroft - Cyngor Wrecsam
Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Swyddogion Statudol

Dewi Aeron Morgan – Prif Swyddog Cyllid
Iwan G Evans – Swyddog Monitro

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL — 4 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Mawrth, 2023 fel rhai cywir.

## 5. CYFANSODDIAD CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD — 7 - 52

Adroddiad i'w gyflwyno gan Iwan G.D. Evans, Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd.

## 6. ADRODDIAD ALLDRO A FFURFLEN FLYNYDDOL 2022/23 — 53 - 63

Adroddiad i'w gyflwyno gan Dewi A.Morgan, Pennaeth Cyllid y CBC (Swyddog Cyllid Statudol) a Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y CBC.

**CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG RHANBARTH Y GOGLEDD**
**24/03/2023**

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais: Y Cynghorwyr:- Llinos Medi Huws (Cyngor Sir Ynys Môn), Charlie McCoubury (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mark Pritchard (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Dyfrig Siencyn (Cyngor Gwynedd) a Paul Johnson (yn dirprwyo ar ran Arweinydd Cyngor Sir y Fflint).

Prif Swyddogion: Emyr Williams (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), Dylan Williams (Cyngor Sir Ynys Môn), Rhun ap Gareth (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Neal Cockerton (Cyngor Sir y Fflint), Ian Bancroft (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych) a Dafydd Gibbard (Cyngor Gwynedd).

Swyddogion yn bresennol: Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Dafydd L. Edwards (Swyddog Arweiniol Prosiect y Cydbwyllgor), Dewi Morgan (Swyddog Adran 151), Sian Pugh (Cyfrifydd Grŵp y CBC) a Sioned Mai Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Jason McLellan (Cyngor Sir Ddinbych), Ian B. Roberts (Cyngor Sir y Fflint) ac Annwen Hughes (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiad o fuddiant ar gyfer eitem 5 gan Alwen Williams, Prif Weithredwr y CBC. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13 Ionawr, 2023, fel rhai cywir.

**5. YMESTYN CYFNOD SECONDIAD I RÔL PRIF WEITHREDWR DROS DRO Y CBC.**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd).

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i ymestyn cyfnod secondiad rhan-amser Cyfarwyddwr Portffolio Uchelgais Gogledd Cymru i rôl Prif Weithredwr Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd hyd at ddiwedd Medi, 2023.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan ategu’r bwriad o ymgorffori Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru i fod yn rhan o’r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn y dyfodol agos. Eglurwyd y gellir cychwyn ar y camau perthnasol er mwyn symud staff drosodd drwy’r broses TUPE yn fuan. Nodwyd bod prosesau i’w dilyn yn ymwneud â’r maes cyflogaeth sydd wedi arafu’r cynnydd ond y nod yw symud drosodd cyn gynted ag y bo modd ac i symud tuag at benodiad parhaol. Ychwanegwyd bod cynllun mewn lle ar gyfer gwireddu hyn.

Ategwyd y penderfyniad a geisir sef i ymestyn cyfnod secondiad rhan-amser y Prif Weithredwr Cydbwyllgor Corfforedig dros dro tan ddiwedd mis Medi 2023.

## 6. ADNODDAU I SWYDDOGAETHAU STATUDOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC).

### PENDERFYNIAD

Derbyniwyd cymeradwyaeth ar gyfer model cyflawni'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer swyddogaethau statudol.

Cymeradwywyd y strwythur staffio cychwynnol a nodir yn Atodiad 2 o’r adroddiad.

Cytunwyd i ddirprwyo awdurdod i Brif Weithredwr dros dro y CBC, mewn ymgynghoriad â Gwasanaeth Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd, ac yn unol â Datganiad Polisi Tâl y Cyd-bwyllgor Corfforedig, ac mewn perthynas â’r swyddi Cynllunio a Thrafnidiaeth i:

- Gwblhau'r Swydd Ddisgrifiadau angenrheidiol ar gyfer y swyddi
- Gadarnhau'r raddfa gyflog sydd wedi'i harfarnu
- Hysbysebu a recriwtio i'r swyddi

Cymeradwywyd trosglwyddo'r gyllideb staffio trafnidiaeth sy'n weddill sy'n cyfateb i 1 x Swyddog Trafnidiaeth FTE a gymeradwywyd ym mis Ionawr i gostau sy'n gysylltiedig â gofynion ymgynghorol y broses Cynllunio Trafnidiaeth Ranbarthol.

Cytunwyd i’r Cyd-bwyllgor Corfforedig dderbyn papur yn y dyfodol i argymell opsiwn a ffafrir er mwyn cyflawni swyddogaeth 'Llesiant Economaidd', a fydd yn cynnwys yr opsiwn i drosglwyddo staff sy'n gysylltiedig â Swyddfa Portffolio gyfredol Uchelgais Gogledd Cymru.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor ar gyfer model cyflawni’r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer swyddogaethau statudol, ‘dyletswyddau ar unwaith’ â nodwyd yn y ddeddfwriaeth.

Nodwyd bod y model arfaethedig wedi ei amlinellu yn Atodiad 2 yn cynnwys capasiti Rheoli Strategol i oruchwylio’r rhaglen waith yn ogystal ag arbenigwyr proffesiynol yn y maes Trafnidiaeth a Chynllunio.

Eglurwyd, yn nhermau Trafnidiaeth, y dylai’r Cyd-bwyllgor Corfforedig baratoi a chyflwyno Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol fyddai yn nodi gweledigaethau, blaenoriaethau ac yr amcanion ar gyfer yr Is-bwyllgor Trafnidiaeth. Nodwyd y dylai’r Cynllun ystyried polisïau a strategaethau Cenedlaethol yn ogystal ag anghenion lleol. Rhagwelwyd y byddai’r Cynllun yn cymryd oddeutu 18 mis i’w gwblhau cyn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar gyfer eu cymeradwyaeth gyda’r bwriad o’i weithredu yn 2025.

O ran Cynllunio, nodwyd bod y Cynllun Datblygu Strategol yn gynllun mwy hirdymor. Eglurwyd y bydd yn gosod gweledigaeth, amcanion a pholisïau ar gyfer defnyddio tiroedd ac

adeiladau mewn ardal neu ranbarth penodol. Rhagwelwyd y bydd y gwaith o baratoi Cynllun Datblygu Strategol Rhanbarthol yn cymryd o leiaf 5 mlynedd. Ychwanegwyd bod y Gwerthusiad Opsiynau sydd wedi ei nodi yn Atodiad 1 yn ceisio pennu'r ffordd ymlaen.

Nodwyd bod y goblygiadau ariannol eisoes wedi eu cyfarch ers y cyfarfod 13 Ionawr 2023 o'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ble cymeradwywyd y gyllideb oedd ei angen ar gyfer recriwtio. Ategwyd bod yr argymhelliad i recriwtio'n uniongyrchol i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd wedi ei gynllunio a'i ystyried o fewn y cyllidebau sydd wedi eu cymeradwyo.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Diolchwyd am y cyflwyniad a mynegwyd parodrwydd i gefnogi'r argymhellion a nodwyd yn yr adroddiad.

**7. DATGANIAD POLISI TÂL 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Alwen Williams (Prif Weithredwr y CBC).

**PENDERFYNIAD**

Cytunwyd i fabwysiadu datganiad polisi tâl Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd ar gyfer 2023/24.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad oedd yn gofyn i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fabwysiadu datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24. Eglurwyd ei bod yn ddyletswydd statudol ar bob awdurdod cyhoeddus i fabwysiadu datganiad polisi tâl yn flynyddol. Nodwyd bod y Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 ynghlwm â'r adroddiad ac yn hawdd i'w ddeall; ychwanegwyd mai mater technegol yw'r eitem hon.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:30yp a daeth i ben am 14:40yp.

| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **Cyd-Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd** |
| DYDDIAD: | **25 Mai 2023** |
| PWNC: | **Cyfansoddiad Cyd Bwyllgor Corfforedig Rhanbarth y Gogledd** |
| AWDUR: | **Iwan Evans Swyddog Monitro** |

---

**PENDERFYNIAD A GEISIR:**

1. **Mabwysiadu y canlynol i'w cynnwys yn y Cyfansoddiad;**

   - **Côd Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig**
   - **Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau**
   - **Rheoliadau Cytundebau a Materion Cyfreithiol**
   - **Rheolau Gweithdrefn Contractau**

2. **Dirprwyo hawl i'w Swyddog Monitro wneud newidiadau golygyddol i'r Rheolau Sefydlog ar gyfer eu cyhoeddi.**

---

## 1. RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

Mae Reoliadau Cyd Bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Cymru) 2022 y bydd gofyn i CBC baratoi a chyhoeddi Cyfansoddiad.

Bwriad yr adroddiad yma yw Mabwysiadu elfennau pellach o'r Cyfansoddiad er creu dogfen gyflawn maes o law.

## 2. CEFNDIR

Mae gofyn statudol bellach drwy newidiadau a wnaethpwyd i Deddf Llywodraeth Leol 2000 fod y Cyd Bwyllgor Corfforedig yn yr un modd a'r Cynghorau Cyfansoddol yn gorfod mabwysiadu a chyhoeddi Cyfansoddiad.

Yn ôl yr arweiniad statudol ;

**"**Rhaid cynnwys copi o reolau sefydlog y Cyd-bwyllgor Corfforedig, copi o gôd ymddygiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ac unrhyw wybodaeth y mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn ystyried yn briodol. Gall y cyfansoddiad hefyd ystyried y materion a nodir yn y Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig gan gynnwys, er enghraifft, yr Atodlen i'r Rheoliadau Sefydlu"*(Cyd-bwyllgorau Corfforedig: Canllawiau Statudol)*

Ystyrir y dylai'r Cyfansoddiad gynnwys y materion canlynol:

| | |
|---|---|
| **1. PWRPAS, DIFFINIADAU A CHYNNAL** | I'w paratoi |
| **2. MYEDIAD I WYBODAETH A CHYFRANU AT WAITH Y CBC** | I'w paratoi |
| **3. RHEOLAU SEFYDLOG CBC** | Wedi eu mabwysiadu |
| **4. RHEOLAU SEFYDLOG IS BWYLLGORAU** | Wedi eu mabwysiadu |
| **5. IS BWYLLGORAU** | Wedi eu mabwysiadu ac eithrio Safonau sydd yn yr adroddiad |
| **6. SWYDDOGION** | I'w paratoi |
| **7. CYTUNDEBAU A MATERION CYFREITHIOL** | Rhan o'r adroddiad |
| **8. CYNLLYN DIRPRWYO** | I'w paratoi |
| **9. RHEOLIADU ARIANNOL** | I'w paratoi |
| **10. RHEOLIADAU SEFYLDOG CAFFAEL** | Rhan o'r adroddiad |
| **11. COD YMDDYGIAD AELODAU** | Ffurf statudol ac yn Rhan o'r adroddiad |
| **12. PROTOCOL AELODAU SWYDDOGION** | I'w paratoi mewn ymgynghoriad a'r Is Bwyllgor Safonau |
| **13. CHWYTHU'R CHWIBAN** | I'w paratoi mewn ymgynghoriad a'r Is Bwyllgor Safonau |

Mae'r argymhelliad i fabwysiadu y canlynol gyda adroddiadau pellach ar y gweddill i'w darparu ar gyfer cyfarfod Gorffennaf. :

**(a) Côd Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.**

Mae hwn yn dilyn y ffurf statudol mandadol ac yn adlewyrchu y Côd sydd wedi ei fabwysiadu ar draws yr awdurdodau partner. Er y gellir ychwanegu ato nid yw hyn yn arferol. Fodd bynnag gall hyn gael ei ystyried os cyfyd angen gan yr Is Bwyllgor Safonau all wneud argymhellion. Fodd bynnag gyda cyfethol aelodau yn dechrau bellach mae angen sicrhau fod trefniadau Côd Ymddygiad wedi eu mabwysiadu.

**(b) Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau**

Mae hyn yn awgrymu ar ffurf Is Bwyllgor Safonau. Hyd yn hyn mae sefyllfa y CBC o safbwynt y Rheoliadau Pwyllgor Safonau yn amwys. Fodd bynnag yn absenoldeb arweiniad ar hysbysebu er enghraifft awgrymir ffurf alla gyfarch y gofyn. Mewn realiti ni ystyrir y bydd yr Is Bwyllgor Safonau yn destun llawer o waith yn y cychwyn ac mae tynnu ar aelodau profiadol Pwyllgorau y cyrff cyfansoddol yn cynrychioli trefn fwy ymarferol o gynnal yr Is Bwyllgor gan bwyso ar drefniadau anwytho a hyfforddi y pwyllgorau Safonau rhanbarthol. Rwyf wedi ymgynghori gyda y Swyddogion Monitro rhanbarthol ar y bwriad yma.

**(c) Rheoliadau Cytundebau a Materion Cyfreithiol**

Gosod trefniadau gweinyddol eglur mewn lle ar gyfer materion cytundebol. Achosion llys a hawl arwyddo.

**(d) Rheolau Gweithdrefn Contractau**

Wrth symud i ddechrau gweithredu mae'n allweddol fod trefniadau caffael y CBC yn eglur. Awgrymir mabwysiadu templed Gwynedd sydd newydd ei ddiweddaru ac yn cynrychioli yr un rheolau a weithredir gan y Swyddfa Portffolio.

**SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro**

Awdur yr Adroddiad

**Y Pennaeth Cyllid**

“Mae datblygu a mabwysiadu Cyfansoddiad briodol yn gonglfaen allweddol o drefniadau llywodraethu cadarn, ac mae'r elfennau sydd wedi cael eu cynnwys yn yr atodiadau yn gamau cychwynnol pwysig yn y broses yma. Rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir.”

**Atodiadau**

1.Côd Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig

2.Cylch Gorchwyl Is Bwyllgor Safonau

3.Rheoliadau Cytundebau a Materion Cyfreithiol

4.Rheolau Gweithdrefn Contractau

**ATODIAD 1**

**CÔD YMDDYGIAD AELODAU**

## .1 YR EGWYDDORION

Mae Gorchymyn Ymddygiad Aelodau (Egwyddorion)(Cymru) 2001 yn nodi'r egwyddorion sydd i lywodraethu ymddygiad aelodau awdurdod perthnasol yng Nghymru. Dyma nhw:-

### .1.1 ANHUNANOLDEB

Mae'n rhaid i Aelodau weithredu er budd y cyhoedd yn unig. Mae'n rhaid iddynt beidio byth â defnyddio eu safle fel Aelodau i roi mantais amhriodol i'w hunain nac i roi mantais neu anfantais amhriodol i eraill.

### .1.2 GONESTRWYDD

Mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n berthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

### .1.3 UNIONDEB A GWEDDUSTER

Mae'n rhaid i Aelodau beidio â'u rhoi eu hunain mewn sefyllfa lle y gallai unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt o ran cyflawni eu dyletswyddau godi amheuon ynglŷn â'u huniondeb. Mae'n rhaid i Aelodau osgoi ymddygiad sy'n ymddangos felly ar bob achlysur.

### .1.4 DYLETSWYDD I GYNNAL Y GYFRAITH

Mae'n rhaid i Aelodau weithredu i gynnal y gyfraith, a gweithredu ar bob achlysur yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi'i rhoi ynddynt.

### .1.5 STIWARDIAETH

Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, mae'n rhaid i Aelodau sicrhau bod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon ac yn ochelgar.

### .1.6 GWRTHRYCHEDD WRTH WNEUD PENDERFYNIADAU

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys gwneud penodiadau, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion ar gyfer gwobrwyon a buddiannau, mae'n rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er bod yn rhaid i Aelodau ystyried cyngor proffesiynol gan swyddogion ac y gallai fod yn briodol iddynt roi sylw i safbwyntiau pobl eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb hwy yw penderfynu pa safbwynt i'w arddel ac, os yw'n briodol, sut i bleidleisio ar unrhyw fater.

### .1.7 CYDRADDOLDEB A PHARCH

Mae'n rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill.

.1.8 **BOD YN AGORED**

Mae'n rhaid i Aelodau fod mor agored â phosibl ynglŷn â'u holl weithredoedd a gweithredoedd eu hawdurdod. Mae'n rhaid iddynt geisio sicrhau bod datgeliadau gwybodaeth yn cael eu cyfyngu yn unol â'r gyfraith yn unig.

.1.9 **ATEBOLRWYDD**

Mae Aelodau'n atebol i'r etholaeth a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd y maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel Aelodau. Mae'n rhaid iddynt fod yn barod i ildio i unrhyw graffu sy'n briodol i'w cyfrifoldebau.

.1.10 **ARWEINYDDIAETH**

Mae'n rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn trwy roi arweiniad ac esiampl er mwyn hybu hyder y cyhoedd yn eu rôl ac yn yr awdurdod. Mae'n rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i gyflogeion eraill.

**.2 DEHONGLIAD**

.2.1 Yn y côd hwn mae

"**aelodau cyfetholedig**" o ran awdurdod perthnasol, yn golygu unigolyn nad yw'n Aelod o'r awdurdod ond sy'n:

(a) Aelod o unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r awdurdod; neu'n

(b) Aelod o unrhyw un o gydbwyllgorau neu is-gydbwyllgorau'r awdurdod, ac yn cynrychioli'r awdurdod arnynt

ac sydd â hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw.

"**cyfarfod**" yn golygu unrhyw gyfarfod:

(a) o'r awdurdod perthnasol;

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd yn yr awdurdod perthnasol;

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor yn yr awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor o'r fath yn unrhyw weithrediaeth neu fwrdd o'r awdurdod; neu

(ch) pan fo Aelodau neu Swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol heblaw mewn cyfarfod o grŵp gwleidyddol a ffurfiwyd yn unol â rheoliad 8 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a

Grwpiau Gwleidyddol) 1990, ac yn cynnwys amgylchiadau pryd y mae Aelod o weithrediaeth neu fwrdd neu Swyddog sy'n gweithredu ar ei ben/phen ei hun yn arfer un o swyddogaethau'r awdurdod;

"**Aelod**" yn cynnwys, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall, aelod cyfetholedig.

"**Awdurdod perthnasol**" yn golygu:

(a) cyngor sir;

(b) cyngor bwrdeistref sirol;

(c) cyngor cymuned;

(ca) cydbwyllgor corfforedig a sefydlir gan reoliadau a wnaed o dan Ran 5 o Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

(ch) awdurdod tân ac achub a ffurfiwyd gan gynllun o dan Adran 2 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae Adran 4 o'r Ddeddf honno'n berthnasol iddo;

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan Adran 63 Deddf yr Amgylchedd 1995.

"**chi**" yn golygu chi fel Aelod neu Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol;

"**eich awdurdod**" yn golygu'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n Aelod neu'n Aelod cyfetholedig ohono.

.2.2 O ran cyngor cymuned, dylid cymryd bod cyfeiriadau at Swyddog Monitro awdurdod a phwyllgor safonau awdurdod, yn ôl eu trefn, yn cyfeirio at Swyddog Monitro a phwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan Adran 56(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## .3 <u>DARPARIAETHAU CYFFREDINOL</u>

.3.1 Ac eithrio lle mae paragraff .3.3. yn berthnasol, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn;

(a) pryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod neu'n bresennol mewn cyfarfod o'ch awdurdod;

(b) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rhinwedd rôl Aelod y cawsoch eich ethol neu'ch penodi iddi;

(c) pryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel cynrychiolydd eich awdurdod; neu

(ch) bob amser ac mewn unrhyw swyddogaeth, mewn perthynas â'r ymddygiad a nodir ym mharagraffau .3.6(a) a .3.8.

.3.2 Dylech ddarllen y côd hwn ynghyd â'r egwyddorion cyffredinol a bennir o dan Adran 49(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

.3.3 Pan gewch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu:

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol, mae'n rhaid i chi, wrth weithredu ar ran yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chôd ymddygiad yr awdurdod neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd yn ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, mae'n rhaid i chi wrth weithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio lle y mae'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau, cyfreithlon eraill y gallai'r corff arall hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt.

.3.4 Mae'n rhaid i chi:

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth briodol i'r egwyddor y dylai fod cyfle dob i bawb, waeth beth fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oedran neu grefydd;

(b) dangos parch at bobl eraill ac ystyriaeth iddynt;

(c) peidio â bwlio nac aflonyddu unrhyw unigolyn; a

(ch) pheidio â gwneud unrhyw beth sy'n peryglu, neu sy'n debygol o beryglu, didueddrwydd y rhai hynny sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod.

.3.5 Mae'n rhaid i chi beidio â

(a) datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid ystyried yn rhesymol ei bod o natur gyfrinachol, heb ganiatâd penodol unigolyn sydd ag awdurdod i roi caniatâd o'r fath, neu oni bai fod yn rhaid i chi wneud hynny o dan y gyfraith;

(b) atal unrhyw unigolyn rhag cael mynediad at wybodaeth y mae gan yr unigolyn hwnnw hawl iddi o dan y gyfraith.

.3.6 Mae'n rhaid i chi:

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ystyried yn rhesymol ei bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;

(b) adrodd pa un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, am unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar

ei ran ac y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw, at ddibenion y paragraff hwn, yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellid eu cosbi trwy gosb benodedig);

(c) adrodd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Swyddog Monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi gredu ei fod yn torri'r côd ymddygiad hwn;

(ch) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wacsaw yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ran eich awdurdod.

.3.7 Mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan Swyddog Monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag ymchwiliad a gynhelir yn unol â'u pwerau statudol unigol.

.3.8 Mae'n rhaid i chi:

(a) yn rhinwedd eich swydd neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais i chi eich hun, neu i unrhyw unigolyn arall, neu i greu neu osgoi anfantais i chi eich hun, neu i unrhyw unigolyn arall;

(b) peidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, nac awdurdodi pobl eraill i'w defnyddio:

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

.3.9 Mae'n rhaid i chi:

(a) wrth gymryd rhan mewn cyfarfodydd neu wneud penderfyniadau ynglŷn â busnes eich awdurdod, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd gan ystyried unrhyw gyngor perthnasol a roddwyd gan swyddogion eich awdurdod, ac yn enwedig gan:

(i) Brif Weithredwr yr awdurdod;

(ii) Prif Swyddog Cyllid yr awdurdod;

(iii) Swyddog Monitro'r awdurdod;

(iv) Prif Swyddog Cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef/hi pan fo unrhyw amheuaeth ynglŷn â phŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch pan un a yw'r camau arfaethedig o fewn y fframwaith polisi a gytunwyd gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol weithredu neu fethiant i weithredu gan yr awdurdod arwain at ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodwyd gan eich awdurdod.

.3.10 Mae'n rhaid i chi:

(a) gydymffurfio â'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod.

(b) osgoi derbyn unrhyw roddion oddi wrth neb, na lletygarwch (heblaw am letygarwch swyddogol, fel derbyniad dinesig neu ginio gwaith a awdurdodwyd yn briodol gan eich awdurdod), na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu unrhyw unigolyn a allai eich rhoi chi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

## .4 <u>BUDDIANNAU</u>

.4.1 <u>Buddiannau Personol</u>

(a) Mae'n rhaid i chi ystyried, ym mhob mater, pa un a oes gennych chi fuddiant personol, a pha un a yw'r côd ymddygiad hwn yn mynnu eich bod yn datgelu'r buddiant hwnnw.

(b) Mae'n rhaid i chi ystyried bod gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef:

(i) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt:

(A) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gennych chi;

(B) unrhyw unigolyn sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi; unrhyw gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo neu unrhyw gwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer;

(C) unrhyw unigolyn, heblaw am eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn perthynas â'ch ethol neu unrhyw dreuliau a gafwyd gennych wrth gyflawni eich dyletswyddau fe aelod;

(CH) unrhyw gorff corfforaethol sydd â lle busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warannau'r corff hwnnw sy'n fwy na gwerth enwol £25,000 neu ganfed

ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(D) unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng eich awdurdod a chi eich hun neu gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo, cwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer neu gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff CH uchod;

(DD) unrhyw dir y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo sydd yn ardal eich awdurdod;

(E) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord ar ei gyfer ac y mae'r tenant yn gwmni yr ydych chi'n bartner ynddo, cwmni yr ydych chi'n gyfarwyddwr taledig ar ei gyfer, neu gorff sy'n cyfateb i'r disgrifiad a roddir ym mharagraff (CH) uchod;

(F) unrhyw gorff yr ydych wedi'ch ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(FF) unrhyw:

1. awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

2. cwmni, cymdeithas ddiwydiannol neu ddarbodus, elusen, neu gorff sydd wedi'i gyfeirio at ddibenion elusennol;

3. corff y mae ei brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;

4. undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

5. glwb, cymdeithas neu fudiad preifat sy'n gweithredu yn ardal eich awdurdod

yr ydych chi'n aelod ohono/ohoni neu'n dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo/ynddi;

(G) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill), i'w feddiannu am 28 diwrnod neu gyfnod hwy;

(ii) Pe gallai aelod o'r cyhoedd ganfod yn rhesymol wrthdaro rhwng eich rôl wrth wneud penderfyniad, ynglŷn â'r busnes hwnnw, ar ran eich awdurdod yn gyffredinol a'ch rôl wrth gynrychioli buddiannau etholwyr yn eich ward neu adran etholiadol; neu

(iii) benderfyniad y gellid ystyried yn rhesymol ei fod yn effeithio ar:

(A) eich lles neu eich sefyllfa ariannol, neu les neu sefyllfa ariannol unigolyn yr ydych chi'n byw gydag ef/hi, neu unigolyn y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef/hi;

(B) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhelir gan yr unigolion a ddisgrifir yn (A);

(C) unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw unigolion a ddisgrifir yn (A), unrhyw gwmni y maent yn bartner ynddo, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwr ar ei gyfer;

(CH) unrhyw gorff corfforaethol y mae gan yr unigolion a ddisgrifir yn (A) fuddiant llesiannol ynddo mewn dosbarth o warannau sy'n fwy na gwerth enwol £5,000; neu

(D) unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau .4.1(b)(i)(FF)1 i .4.1(b)(i)(FF)5 y mae'r unigolion a ddisgrifir yn (A) yn dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo, i raddau mwy na mwyafrif

1. yn achos awdurdod â wardiau neu adrannau etholiadol talwyr y dreth cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr eraill y ward neu'r adran etholiadol, fel y bo'n berthnasol, y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

2. ym mhob achos arall, talwyr y dreth cyngor, trethdalwyr neu breswylwyr eraill ardal yr awdurdod.

.4.2 Datgelu Buddiannau Personol

(a) Pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn bresennol mewn cyfarfod lle mae'r busnes hwnnw'n cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgelu ar lafar i'r cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth honno, neu pan ddaw'r buddiant yn amlwg.

(b) Pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod yn cyflwyno:

(i) sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod ynglŷn â'r busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion y buddiant hwnnw yn y cyfathrebiad ysgrifenedig; neu

(ii) sylwadau ar lafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) i aelod neu swyddog o'ch awdurdod, dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw'n amlwg i chi bod gennych fuddiant o'r

fath, a chadarnhau'r sylwadau a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

(c) Yn amodol ar baragraff .4.5(a)(ii) isod, pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef a'ch bod wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, mae'n rhaid i chi, o ran y busnes hwnnw, sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynglŷn â phenderfyniad hwnnw yn cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(ch) Mae'n rhaid i chi, o ran buddiant personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu'n union ar ôl diwedd cyfarfod lle y gwnaed y datgeliad yn unol â pharagraff .4.2(a) roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan Swyddog Monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond sy'n cynnwys, o leiaf:

(i) fanylion y buddiant personol;

(ii) manylion y busnes y mae'r buddiant personol yn ymwneud ag ef;

(iii) llofnod.

(d) Pan fydd eich Swyddog Monitro yn cytuno bod y wybodaeth yn ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff .5.2(a), bydd eich rhwymedigaethau o dan y paragraff .4.2 hwn i ddatgelu gwybodaeth o'r fath, boed hynny ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn cael eu disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol a chadarnhau bod eich Swyddog Monitro wedi cytuno bod natur y cyfryw fuddiant personol yn wybodaeth sensitif.

(dd) At ddibenion paragraff (ch), ystyrir bod buddiant personol wedi cael ei ddatgelu'n flaenorol dim ond os rhoddwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu'n aelod o'ch awdurdod.

(e) At ddibenion is-baragraff (c), os na roddwyd hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw, ystyrir nad ydych wedi datgelu buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

.4.3 Buddiannau sy'n Rhagfarnu

(a) Yn amodol ar baragraff (b) isod, pan fydd gennych chi fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os yw'r buddiant yn un y byddai'n rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n ymwybodol o'r ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch budd y cyhoedd.

(b) Yn amodol ar baragraff (c), ni ystyrir bod gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os yw'r busnes hwnnw:

(i) yn ymwneud â'r canlynol:

(A) awdurdod perthnasol arall yr ydych chi'n aelod ohono hefyd;

(B) awdurdod neu gorff cyhoeddus arall sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus yr ydych chi'n dal swydd reolaeth gyffredinol ynddo;

(C) corff y cawsoch eich ethol, eich penodi neu eich enwebu iddo gan eich awdurdod;

(CH) eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol yr ydych chi'n llywodraethwr ynddi;

(D) eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod;

(ii) yn ymwneud â'r canlynol:

(A) swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych chi denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych chi ôl-ddyledion rhent o fwy na dau fis gyda'ch awdurdod, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn benodol â'ch tenantiaeth neu'ch prydles;

(B) swyddogaethau eich awdurdod o ran costau prydau ysgol, cludiant a theithio, os ydych chi'n warcheidwad, rhiant neu riant-cu neu'n meddu ar gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn Adran 3 Deddf Plant 1989) am blentyn sydd mewn addysg amser llawn, oni bai ei fod yn ymwneud yn benodol â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw/honno'n mynd iddi;

(C) swyddogaethau eich awdurdod o ran tâl salwch statudol o dan Ran XI Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych chi'n derbyn tâl o'r fath gan eich awdurdod neu os oes gennych chi hawl i'w dderbyn;

(CH) swyddogaethau eich awdurdod o ran lwfans neu daliad a wnaed o dan Adrannau 22(5), 24(4) a 173 i 176 Deddf Llywodraeth Leol 1972, lwfans neu bensiwn o dan Adran 18 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 neu lwfans neu daliad o dan Adran 100 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

(iii) eich rôl fel cynghorydd cymuned o ran grant, benthyciad neu fath arall o gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i sefydliad cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(c) Nid yw'r eithriadau ym mharagraff .4.3(b)(i) yn berthnasol pan fo'r busnes yn ymwneud â phenderfynu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestriad.

.4.4 Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a gyflwynir gerbron un o bwyllgorau trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) pan fo'r:

(a) busnes hwnnw'n ymwneud â phenderfyniad a wnaed (pa un a'i gweithredwyd ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth neu fwrdd eich awdurdod neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu is-gydbwyllgorau eich awdurdod; ac

(b) ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam, yr oeddech chi'n Aelod o'r weithrediaeth, bwrdd, pwyllgor is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-gydbwyllgor a grybwyllwyd ym mharagraff (a) ac yn bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu y cymerwyd y cam hwnnw.

.4.5 Cyfranogiad mewn perthynas â Buddiannau a Ddatgelwyd

(a) Yn amodol ar baragraffau (b), (c) ac (ch) pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi cael goddefeb gan bwyllgor safonau eich awdurdod:

(i) fynd allan o'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal:

(A) lle y mae paragraff (b) yn berthnasol, yn union ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth ynglŷn â'r busnes ddod i ben a, sut bynnag, cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, pa un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu

(B) mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw'n amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(ii) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd o ran y busnes hwnnw;

(iii) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;

(iv) peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed hynny trwy lythyr, ffacs neu ryw fath arall o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(v) peidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed hynny'n bersonol neu drwy ryw fath o gyfathrebu electroneg) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi'r gorau ar unwaith i

wneud sylwadau llafar o'r fath pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(b) Pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, cewch fynychu cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth yn ymwneud â'r busnes yn unig, cyn belled ag y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hefyd at yr un diben, boed hynny o dan hawl statudol neu fel arall.

(c) Nid yw paragraff (a) yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod:

(i) os y gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan bwyllgor o'r fath sy'n arfer ei bwerau statudol; neu

(ii) a oes gennych chi oddefeb cyn belled â'ch bod:

(A) yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb; a

(B) cyn neu yn union ar ôl i'r cyfarfod orffen, eich bod yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod sy'n cynnwys:

1. manylion y buddiant sy'n rhagfarnu;

2. manylion y busnes y mae'r buddiant sy'n rhagfarnu yn ymwneud ag ef;

3. manylion yr oddefeb a'r dyddiad y'i caniatawyd arno; a'ch

4. llofnod.

(ch) Pan fydd gennych chi fuddiant sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar oddefeb, mae'n rhaid i chi gynnwys manylion yr oddefeb mewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu lafar o'r fath ac, yn yr achos olaf, roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

## .5 <u>Y GOFRESTR BUDDIANNAU AELODAU</u>

.5.1 <u>Cofrestru Buddiannau Ariannol ac Eraill ac Aelodaeth a Swyddi Rheoli.</u>

(a) Yn amodol ar is-baragraff (c) mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o'r:

(i) adeg y caiff côd ymddygiad eich awdurdod ei fabwysiadu neu y caiff darpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu o'ch

(ii) etholiad neu benodiad i'r swydd (os yw hynny'n ddiweddarach),

gofrestru eich buddiannau ariannol a buddiannau eraill, pan fyddant yn dod o fewn categori a grybwyllwyd ym mharagraff .4.1(b)(i) yng nghofrestr eich awdurdod a gynhelir o dan Adran 81(1) Deddf Llywodraeth Leol 2000 trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod.

(b) Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd neu newid i unrhyw fuddiant personol a gofrestrwyd o dan baragraff (a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw neu'r newid hwnnw i fuddiant personol trwy roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod.

(c) Nid yw paragraffau (a) a (b) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a bennwyd un unol â pharagraff .5.2(a).

(ch) Ni fydd paragraff (a) yn berthnasol os ydych chi'n aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn rhinwedd eich swydd fel aelod o awdurdod o'r fath.

.5.2 Gwybodaeth Sensitif

(a) Pan fyddwch o'r farn bod y wybodaeth yn ymwneud ag unrhyw un o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif a bod Swyddog Monitro eich awdurdod yn cytuno, ni fydd angen i chi gynnwys y wybodaeth honno wrth gofrestru'r buddiant hwnnw, neu, fel y bo'n berthnasol newid i'r buddiant o dan baragraff .5.1.

(b) Mae'n rhaid i chi o fewn 28 diwrnod o ddod yn ymwybodol o unrhyw newid i amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (a) yn wybodaeth sensitif mwyach, hysbysu Swyddog Monitro eich awdurdod gan ofyn i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr buddiannau aelodau eich awdurdod.

(c) Yn y côd hwn, mae "gwybodaeth sensitif" yn golygu gwybodaeth y byddai caniatau iddi gael ei harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu unigolyn sy'n byw gyda chi fod yn agored i drais neu fygythion.

.5.3 Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch.

Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na £25 roi hysbysiad ysgrifenedig i Swyddog Monitro eich awdurdod o fodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais honno.

**ATODIAD 1**

# SAFON GWYNEDD

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r safonau ymddygiad a ddisgwylir oddi wrth gynghorwyr Cyngor Gwynedd wrth ymdrin â'i gilydd. Dylid ei darllen ar y cyd hefo'r Côd Ymddygiad i Aelodau a'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog. Mae'n ychwanegu at y dogfennau hynny ac nid tynnu oddi wrthynt.

Disgwylir i aelodau o Gyngor Gwynedd :-

Ymddygiad cyhoeddus:

- Ddangos parch i'w gilydd.
- Beidio â gwneud sylwadau dilornus personol am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi unrhyw beth sarhaus am ei gilydd.
- Beidio â gwneud honiadau maleisus am ei gilydd.
- Beidio â chyhoeddi neu ledaenu gwybodaeth ffug am ei gilydd.
- Ddangos parch i gyfartaledd ac amrywiaeth.

Ymddygiad mewn cyfarfodydd:

- Ymddwyn yn urddasol yn y Siambr.
- Ddangos parch i'r Cadeirydd ac ufuddhau i'w ddyfarniadau.
- Beidio â defnyddio iaith anweddus na gwneud sylwadau hiliol neu sy'n rhagfarnu yn erbyn carfan o gymdeithas.

Cyfrinachedd:

- Gadw cyfrinachedd papurau eithriedig ac unrhyw ddogfennau eraill nad ydynt yn gyhoeddus.
- Beidio rhyddhau gwybodaeth gyfrinachol i'r wasg na'r cyhoedd.
- Ddychwelyd papurau cyfrinachol.
- Beidio defnyddio gwybodaeth gyfrinachol i ddibenion eraill nas bwriadwyd.

Aelodau lleol:

- Gydweithio gydag aelodau wardiau cyfagos er lles y gymdogaeth.
- Os yw'n ymdrin ag unrhyw fater sy'n ymwneud ag etholaeth aelod arall:
    - Egluro wrth unrhyw un sy'n gofyn cymorth nad ef/hi yw'r aelod lleol
    - Roi gwybod i'r aelod lleol oni bai y byddai hynny yn torri cyfrinachedd

**ATODIAD 2**

**TREFN DATRYS LEOL CYNGOR GWYNEDD**

**TREFN AR GYFER YMDRIN Â HONIADAU FOD AELOD WEDI TORRI'R PROTOCOL CYSWLLT AELOD-SWYDDOG NEU SAFON GWYNEDD**

**CYFLWYNIAD**

1. Mae'r Protocol Cyswllt Aelod-Swyddog yn arf bwysig i hybu cydweithrediad da rhwng aelodau a swyddogion o fewn y Cyngor a thrwy hynny caniatáu i'r cyngor gyflawni ei ddyletswyddau yn y modd mwyaf effeithiol a phroffesiynol. Yn yr un modd mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Safon Gwynedd er mwyn hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad ymysg aelodau. Mae'n bwysig felly bod modd ymdrin yn gyflym ac effeithiol gydag unrhyw honiad yn erbyn aelod ei fod wedi torri'r protocol neu'r Safon. Diben y drefn leol hon yw cyflwyno dull syml a hawdd i'w deall i ymdrin â honiadau o'r fath.

**CAM 1 O'R DREFN**

2. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyflwyno honiad dan y drefn hon anfon ei gwyn (yn achos swyddog yn dilyn ymgynghoriad gyda'i Bennaeth Adran) at y Swyddog Monitro. Yn dilyn derbyn cwyn bydd y Swyddog Monitro yn gweithredu fel a ganlyn :-

3. Yn y lle cyntaf cynhelir ymchwiliad rhagarweiniol byr i sefydlu'r ffeithiau (lle'n bosib) a'r meysydd anghytundeb. Trafodir datrysiadau posib gyda'r achwynydd a'r aelod y gwneir yr honiad yn ei erbyn i sefydlu a oes modd cael datrysiad cyflym. Ar y cam yma rhoddir cyngor i'r achwynydd a fyddai ffordd arall o weithredu (e.e. cyfeirio i'r Ombwdsmon) yn fwy addas. Gall y cam yma gael ei drin gan y Swyddog Monitro yn bersonol neu gan swyddog arall a benodir ganddo.

4. Os yn dilyn y cam cyntaf y bydd yr achwynydd yn dymuno bwrw ymlaen gyda honiad dan y drefn hon, gellir cyfeirio'r mater, naill a'i i gyfarfod cymodi dan Gam 2 neu i wrandawiad gan y Pwyllgor Safonau dan Gam 3.

**CAM 2 O'R DREFN**

5. Yng ngham 2 cynhelir cyfarfod rhwng y sawl sy'n cwyno, yr aelod y gwneir yr honiad yn ei erbyn, y Swyddog Monitro ac (os ystyrir yn briodol) busnesau eraill a wahoddir gan y Swyddog Monitro. Gall personau o'r fath gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y Prif Weithredwr ac Arweinydd Grŵp y grŵp(iau) gwleidyddol perthnasol. Mae modd i swyddog gael cydweithiwr neu uwch swyddog o'r adran yn bresennol gydag ef/hi. Mae hefyd yn bosib ymdrin â'r mater yn absenoldeb swyddog mewn achosion eithriadol. Bwriad y cyfarfod yma fydd ceisio datrys y mater heb fynd ymhellach.

**CAM 3 O'R DREFN**

6. Y trydydd cam yw gwrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau. Gofynnir i'r sawl sy'n cwyno gyflwyno sylwedd ei gŵyn yn ysgrifenedig a gofynnir am ymateb ysgrifenedig gan yr aelod dan sylw. Bydd y papurau hyn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol a ddarperir gan y naill ochr neu'r llall yn cael eu dosbarthu i aelodau y Pwyllgor Safonau.

7. Bydd gan y sawl sy'n cwyno a'r aelod sy'n destun y gwyn yr hawl i ymddangos gerbron y Pwyllgor Safonau ac i gyflwyno tystiolaeth gan dystion. Ni dderbynnir tystiolaeth ysgrifenedig yn unig gan dyst heb gytundeb yr ochr arall. Bydd gan y ddau hawl i gael cynrychiolydd neu gydweithiwr yn bresennol. Ni fydd y Cyngor yn talu cost cynrychiolwyr.

8. Pe byddai'r naill ochr neu'r llall yn dymuno peidio bod yn bresennol, neu yn methu ymddangos, gellir cynnal y gwrandawiad yn eu habsenoldeb.

9. Wedi i'r dystiolaeth gael ei chlywed gofynnir i'r ddwy ochor a'u cynrychiolwyr adael yr ystafell a bydd y Pwyllgor Safonau yn dod i benderfyniad ar yr honiad. Bydd y Swyddog Monitro wrth law i gynghori'r Pwyllgor.

10. Gall y Pwyllgor ddod i un o dri penderfyniad, sef :-

   a) Nad oes sail i'r honiad;

   b) Bod sail i'r honiad, ond nad oes angen cymryd unrhyw gamau pellach;

   c) Bod sail i'r honiad ac y dylid ceryddu'r Aelod.

Yn ychwanegol fe all y Pwyllgor wneud argymhellion i'r Cyngor ynglŷn â newid unrhyw gyfundrefnau neu gymryd unrhyw gam pellach.

**MATERION ATODOL**

11. Ni roddir cyhoeddusrwydd i enwau y partïon oni bai y penderfynir bod sail i'r honiad. Bydd y gwrandawiadau gerbron y Pwyllgor Safonau yn eithriedig.

12. Nid oes raid dilyn camau 2 a 3 mewn trefn. Er bod modd i achwynydd sydd yn parhau yn anfodlon wedi y cyfarfod cymodi ofyn am i'r mater gael ei gyfeirio i wrandawiad gerbron y Pwyllgor Safonau, mae hefyd yn bosib i fater fynd yn syth gerbron Pwyllgor Safonau heb fynd i gyfarfod cymodi yn gyntaf. Mae'n bosib i aelod gynnig ymddiheuriad unrhyw adeg hyd at y gwrandawiad ond pe byddai'r gwrandawiad wedi ei drefnu a bod yr achwynydd yn dymuno peidio parhau â'i gwyn bydd angen cydsyniad Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i ddiddymu'r gwrandawiad.

13. Nod y drefn hon yw ceisio datrys cwynion am aelodau yn gyflym ac yn effeithiol. Nid oes dim yn y drefn yn atal hawl unrhyw un rhag cyflwyno cwyn i ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus cymru fod aelod wedi torri y côd ymddygiad. Fe allai'r ombwdsmon, os yw o'r farn fod achos i'w ateb, gyfeirio'r mater at y pwyllgor safonau, neu at banel dyfarnu cymru, sydd â'r hawl i ddiarddel aelod am gyfnod o hyd at 5 mlynedd.

**ATODIAD 2**

## IS-BWYLLGOR SAFONAU

### Cyfansoddiad

### Aelodaeth y Pwyllgor Safonau.

Mae'r pwyllgor safonau wedi'i ffurfio o 7 Aelod wedi eu penodi gan y CBC a byddant wedi eu enwebu o blith aelodau annibynnol Pwyllgorau Safonau bob un o'r chwe Awdurdod Cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Nid yw'r personau a ganlyn yn gymwys i wasanaethu fel Aelodau Annibynnol (Lleyg) y pwyllgor safonau:

Person sy'n Gynghorydd neu'n Swyddog yn y Cynghorau Cyfansoddol neu briod neu bartner sifil Cynghorydd neu Swyddog;

Person sydd wedi bod, ond sydd ddim bellach yn Gynghorydd neu'n Swyddog yn y Cynghorau Cyfansoddol;

Person sy'n aelod neu'n swyddog, neu briod neu bartner sifil aelod neu swyddog Awdurdod Perthnasol:

Am y cyfnod o 12 mis yn dechrau gyda'r dyddiad y peidiodd y person hwnnw â bod yn aelod neu'n swyddog o unrhyw Awdurdod Perthnasol, person sydd wedi bod, ond nad yw bellach yn aelod nac yn swyddog ohono.

Golygai “Awdurdod Perthnasol” “Relevant Authority” fel y ddiffinnir yn Adran 49 o Deddf Llywodraeth Leol 2000.

### Cyfnod y Swydd

Penodir Aelodau Annibynnol (Lleyg) am gyfnod o ddim llai na phedair ac nid mwy na chwe blynedd a gellir eu hailbenodi am un tymor yn olynol heb fod yn fwy na phedair blynedd.

### Cyfarfodydd

Rhaid i’r pwyllgor safonau gyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

### Cworwm y Pwyllgor Safonau

Bydd cyfarfod o'r pwyllgor safonau ond yn cyrraedd cworwm pan fo o leiaf 4 Aelod, yn cynnwys y cadeirydd neu yn ei absenoldeb yr is-gadeirydd, yn bresennol.

### Pleidleisio

Bydd gan yr holl Aelodau hawl i bleidleisio mewn cyfarfodydd.

Bydd cwestiwn sydd i'w benderfynu gan y pwyllgor safonau yn cael ei benderfynu gan fwyafrif y pleidleisiau a wneir gan yr aelodau hynny sy'n bresennol yn y cyfarfod ac yn gymwys i bleidleisio.

Os digwydd i’r pleidleisiau fod yn gyfartal, bydd gan y person sy'n cadeirio'r cyfarfod o'r pwyllgor safonau ail bleidlais neu bleidlais fwrw.

**Cadeirio'r cyfarfod.**

Dim ond aelod annibynnol (Lleyg) o'r pwyllgor safonau all fod yn gadeirydd neu'n is-gadeirydd.

Os yw'r cadeirydd yn absennol o gyfarfod o'r pwyllgor safonau, yna bydd is-gadeirydd y pwyllgor, os yw'n bresennol, yn cadeirio.

Os yw cadeirydd ac is-gadeirydd y pwyllgor safonau yn absennol o gyfarfod, bydd aelod annibynnol fel y dewisir gan y pwyllgor safonau yn cadeirio.

Bydd y cadeirydd a'r is-gadeirydd yn cael ei ethol gan aelodau'r pwyllgor safonau am ba bynnag yw'r cyfnod byrraf o:

a) dim llai na phedair blynedd neu ddim mwy na chwe blynedd; neu
b) nes y daw tymor swydd yr Aelod Annibynnol i ben.

Gellir ail-ethol cadeirydd neu is-gadeirydd yn dilyn eu hail-benodi yn Aelod o'r pwyllgor beth bynnag yw'r achos.

**Rôl a Swyddogaeth**

Bydd gan y pwyllgor safonau y rolau a'r swyddogaethau a ganlyn:

a) hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Aelodau;
b) cynorthwyo Aelodau i gadw at Gôd Ymddygiad yr Aelodau;
c) cynghori'r CBC ar fabwysiadu neu adolygu Côd Ymddygiad yr Aelodau;
d) monitro gweithrediad Côd Ymddygiad yr Aelodau;
e) cynghori ar hyfforddiant neu drefnu i hyfforddi Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Chôd Ymddygiad yr Aelodau;
f) caniatáu gollyngiadau i Aelodau o ofynion sy'n ymwneud â buddiannau a nodir yng Nghôd Ymddygiad yr Aelodau;
g) ymdrin ag unrhyw adroddiadau gan dribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim, ac unrhyw adroddiad gan y Swyddog Monitro ar unrhyw fater a gyfeiriwyd at y swyddog hwnnw gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
h) goruchwylio trefn chwythu chwiban y CBC;
i) rhoi cyngor i Aelodau unigol ar faterion fel trin buddiant personol ac ar faterion ymddygiad yn gyffredinol.
j) pennu camau priodol ar faterion y cyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
k) goruchwylio'r Gofrestr Buddiant Aelodau a Swyddogion.
l) goruchwylio rheolau a phrotocolau'r CBC ar atebolrwydd aelodau.
m) goruchwylio presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd perthnasol.

Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol, bydd y pwyllgor safonau yn gwneud adroddiad blynyddol i'r CBC yn nodi'r hyn a ganlyn:

a) sut mae swyddogaethau'r pwyllgor wedi'u cyflawni

b) yr hyn a wnaed i gyflawni'r swyddogaethau cyffredinol a phenodol;

c) adroddiadau ac argymhellion a wnaed neu a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan yr Ombwdsman;

d) camau a gymerwyd gan y pwyllgor ar ôl iddo ystyried adroddiadau ac argymhellion o'r fath;

e) hysbysiadau a roddir i'r pwyllgor gan Banel Dyfarnu Cymru.

f) unrhyw faterion eraill y mae'r pwyllgor yn dymuno tynnu sylw'r CBC ato mewn perthynas â swyddogaethau'r pwyllgor safonau.

**Atodiad 3**

## Cyllid, Contractau a Materion Cyfreithiol

### 1 Rheolaeth Ariannol

Bydd materion ariannol y CBC yn cael eu rheoli yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Ariannol

### 2 Contractau

Bydd pob contract a lunnir gan y CBC yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contractau.

### 3 Camau Cyfreithiol ac Eraill

Mae'r Swyddog Monitro wedi'i awdurdodi i sefydlu, amddiffyn neu

gymryd rhan mewn unrhyw gamau cyfreithiol: gan gynnwys camau yn y llys; Tribiwnlysoedd, Cyflafareddu ac/neu Fforymau sy'n ymwneud â datrys anghydfod; maent hefyd wedi'u hawdurdodi i gyfarwyddo Cwnsel, ymgysylltu â thystion arbenigol a gwneud yr holl bethau eraill i hwyluso'r dull yr ymgymerir ag achosion yn enw'r CBC; gan gynnwys, fel y pennir yn briodol, setlo a chyfaddawdu camau gweithredu fel arall (p'un a ydyw wrth gynnal achos llys, cyn cyflwyno achos llys neu ddatrys unrhyw gwynion Ombwdsmon).

Mae'r Swyddog Monitro yn Gyfreithiwr i'r CBC, neu unrhyw ran ohono, felly mae'r holl achosion a chamau llys yn cael eu cyflwyno yn eu henw a'r holl gynrychiolaeth yn cael ei drefnu ganddynt.

Yn ogystal, mae'r Swyddog Monitro wedi'i awdurdodi i gyfarwyddo Cwnsel i roi cyngor i'r CBC ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyflawni ei swyddogaethau a chynrychioli'r CBC mewn ymchwiliadau (o unrhyw natur) lle mae'n pennu bod gwneud hynny o les i'r CBC.

### 4. Awdurdodi neu Lofnodi Dogfennau

Lle mae'n angenrheidiol ac yn briodol i unrhyw ddogfen gael ei hawdurdodi neu ei llofnodi mewn perthynas ag unrhyw fater ar ran y CBC, neu unrhyw ran ohono, bydd y Prif Weithredwr, y Swyddog A151 neu'r Swyddog Monitro yn awdurdodi neu'n llofnodi fel y "Swyddog Priodol", oni bai bod unrhyw ymddeddfiad yn awdurdodi neu'n mynnu fel arall, neu mae'r CBC wedi rhoi'r awdurdod angenrheidiol i berson arall, i awdurdodi neu lofnodi unrhyw ddogfen.

### 5. Selio a Chwblhau Dogfennau

(a) Bydd gan y Swyddog Monitro yr awdurdod i osod y Sêl Gyffredin a chwblhau o dan y Sêl unrhyw weithred neu ddogfen.

(b) Bydd gan Swyddogion y Cyngor y cyfeirir atynt uchod yr awdurdod i gwblhau unrhyw weithred neu ddogfen nad yw'n ofynnol o dan y gyfraith iddi fod o dan sêl, sy'n angenrheidiol i weithredu penderfyniadau'r CBC.

(c) Gall yr unigolion a enwyd ddirprwyo’r swyddogaeth hon ymhellach.

(d)Bydd unrhyw gofnod o selio pob gweithred neu ddogfen y mae’r Sêl Gyffredin wedi’i gosod arni yn cael ei wneud gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a’i rifo’n olynol mewn llyfr sydd i’w ddarparu at y diben hwnnw.

**ATODIAD 4**

## . RHEOLAU SEFYDLOG CONTRACTAU A RHEOLAU CAFFAEL

### .1 CYFLWYNIAD

.1.1 Caffael yw'r broses y mae'r Cyd Bwyllgor Corfforedig ("CBC") yn ei defnyddio i reoli'r gwaith o gaffael ei holl Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith. Mae'n cynnwys adnabod yr angen, ystyried yr opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r dasg ddilynol o reoli ac adolygu'r contractau.

.1.2 Mae'r Rheolau Sefydlog Contractau a'r Rheolau Caffael hyn yn darparu fframwaith corfforaethol ar gyfer caffael yr holl Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith ar gyfer y Cyngor. Mae'r Rheolau wedi'u dylunio i sicrhau bod y CBC yn cael gwerth am arian a'r lefel ofynnol o ansawdd a pherfformiad yn yr holl gontractau a wobrwyir ganddo a bod yr holl weithgarwch caffael yn cael ei wneud yn agored, yn gywir a bod atebolrwydd amdano.

.1.3 Yn ei holl weithgareddau caffael, rhaid i'r CBC gydymffurfio â'r egwyddorion sylfaenol o ddim gwahaniaethu, trin yn gyfartal, tryloywder, cyd-gydnabyddiaeth a chyfranoldeb ac mae'r rheolau hyn wedi'u dylunio i sicrhau cydymffurfiaeth â hynny.

### .2 DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU

.2.1. Mae'r diffiniadau a ganlyn yn berthnasol yn y Rheolau hyn:

- Mae **Swyddogion Awdurdodedig** yn golygu deiliad unrhyw swydd a enwir yn y Cynllun Dirprwyo fel rhywun sydd â phwerau a dyletswyddau dirprwyedig o ran yr ymarferiad caffael dan sylw.
- Mae **Prif Swyddog** yn golygu unrhyw swyddog yn y categorïau a ganlyn o swyddogion, Prif Weithredwr,Phennaeth Adran Uwch Reolwr.
- Mae **Contract** yn golygu unrhyw ffurf o gytundeb (gan gynnwys, yn ddi-gyfyngiad, archebion prynu swyddogol) ar gyfer cyflenwi Nwyddau, darparu Gwasanaethau neu wneud Gwaith.
- Mae **Contractwr** yn golygu unrhyw gontractwr, cyflenwr neu ddarparwr y mae'r CBCyn rhwymo i Gontract ag ef er dibenion gwneud gwaith, darparu gwasanaethau neu gyflenwi nwyddau.
- Mae **Cytundeb Fframwaith** yn golygu cytundeb ag un neu fwy o Gontractwyr, er diben sefydlu'r telerau (yn enwedig o ran pris a swm), sy'n llywodraethu contract neu gontractau i'w gwobrwyo yn ystod y cyfnod y mae'r cytundeb fframwaith yn berthnasol iddo.
- Mae **Nwyddau** yn golygu'r holl nwyddau, cyflenwadau, sylweddau a deunyddiau y mae'r CBCyn eu prynu, eu llogi neu yn eu cael mewn unrhyw ffordd arall.
- **Grant a Grantiau** - swm o arian a delir neu sydd i'w dalu gan y CBC i drydydd parti, a lle nad yw'r CBC angen i'r sawl sy'n

darparu'r grant i ddarparu unrhyw wasanaethau, nwyddau neu wneud unrhyw waith i'r CBC er budd uniongyrchol y Cyngor. Gall y Grant fod yn amodol (h.y. rheidrwydd i wario'r Grant mewn dull penodol, i gyfrif am y gwariant ac i ad-dalu'r Grant os yw amodau'r Grant yn cael eu torri).

- Mae **ITT (Gwahoddiad i Dendro)** yn golygu gwahoddiad i gyflwyno Tendr.
- Mae **Contract *'Light Touch'*** yn golygu contract arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau penodol eraill a restrir yn Atodlen 3 y Rheoliadau.
- Mae **Caffael** yn golygu'r broses y mae'r CBC yn ei defnyddio i reoli'r gwaith o gaffael ei holl nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Mae'n cynnwys adnabod yr angen, ystyried yr opsiynau, y broses gaffael ei hun a'r dasg ddilynol o reoli ac adolygu'r contractau.
- Mae **Rheolwr Caffael** yn golygu Rheolwr Caffael Cyngor Gwynedd neu unrhyw swyddogion o dan ei oruchwyliaeth neu reolaeth sy'n cael pwerau dirprwyedig i gwblhau unrhyw rwymedigaethau, dyletswyddau neu weithgareddau sydd angen iddynt eu perfformio dan y Rheolau hyn neu i weithredu yn eu habsenoldeb.
- Mae **Proses Gaffael** yn golygu'r broses gaffael sy'n rhedeg dros y cyfnod cyfan, o adnabod yr anghenion, arfarnu'r opsiynau, dewis cyflenwyr, dyfarnu a rheoli contractau drwodd i ddiwedd y contract neu ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased, neu waredu yr ased.
- Mae **Rheolau** yn golygu'r Rheolau Sefydlog Contractau a Rheolau Caffael hyn.
- Mae **Gwasanaethau** yn cynnwys yr holl wasanaethau y mae'r CBC yn eu prynu neu yn eu cael fel arall, gan gynnwys cyngor, gwaith ymgynghorol arbenigol, asiantaeth, staff, ac ati.
- **Gweithdrefn wedi'i Negodi** - lle mae'r CBC wedi negodi telerau'r Contract gydag un neu fwy o'r darparwyr, Contractwyr neu gyflenwyr a ddewiswyd ganddo.
- Mae **Rheoliadau** yn golygu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ac unrhyw addasiad neu ail-ddeddfiad ohono.
- **Tendrwr/Tendrwyr** - Unigolyn, unigolion, partneriaethau, cwmnïau neu gyrff eraill a wahoddwyd i gyflwyno dyfynbrisiau/tendrau, prisiau am ddarparu gwasanaethau i'r Cyngor, cyflenwi nwyddau neu wneud gwaith.
- Mae **Cynnig Amrywiadol** yn golygu cynnig/bid sy'n cynnwys amrywiadau ar y gofynion a nodir gan y CBC yn ei ddogfennaeth caffael.
- Mae **Amrywiad ac Amrywiadau** yn golygu unrhyw newidiadau i gontract, gan gynnwys ychwanegiadau, hepgoriadau, amnewidion, amrywiadau neu newidiadau o unrhyw natur arall.
- Mae **Gwaith** yn cynnwys gwaith adeiladu a thrwsio newydd mewn perthynas ag asedau ffisegol (adeiladau, ffyrdd, ac ati), gan gynnwys yr holl weithgareddau hynny sy'n cynnwys gwaith er dibenion y Rheoliadau.

- Mae **Ysgrifenedig** yn golygu mewn ysgrifen neu ar ffurf electronig "ysgrifenedig".

.2.2 Mae'r holl werthoedd y cyfeirir atynt yn y Rheolau hyn yn cynnwys T.A.W.

.2.3 Bydd unrhyw anghydfod ynghylch dehongliad y Rheolau hyn yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro am ddatrysiad.

.2.4 Bydd y Rheolau hyn yn cael eu darllen ar y cyd gyda Chyfansoddiad y CBC yn ei gyfanrwydd ac yn benodol Reolau Gweithdrefn Ariannol y Cyngor, y mae'n rhaid cydymffurfio â nhw.

.2.5 Bydd y Rheolwr Caffael yn ymgymryd ag adolygiad ffurfiol o'r Rheolau hyn o leiaf bob dwy flynedd.

## .3 CYDYMFFURFIO Â'R RHEOLAU HYN

.3.1 Rhaid dilyn y Rheolau hyn wrth ymdrin ag unrhyw Gaffael Cyngor, ac eithrio ar gyfer yr ymarferion Caffael hynny a'r materion y cyfeirir atynt yn Rheol 17.4.

.3.2 Rhaid i bob ymarferiad Caffael y mae'r CBC yn ei wneud neu unrhyw barti arall ar ei ran gydymffurfio â

(a) yr holl ddarpariaethau statudol perthnasol;

(b) lle'n berthnasol, y Rheoliadau;

(c) Cyfansoddiad y Cyngor;

(d) amcanion a pholisïau strategol y Cyngor, gan gynnwys y Strategaeth Caffael Corfforaethol.

(e) Polisi Caffael Cynaliadwy'r Cyngor; ac

(f) y canllawiau ar Safle Mewnrwyd yr Uned Gaffael.

.3.3. Gall y Rheolwr Caffael o bryd i'w gilydd gyflwyno canllawiau caffael. Rhaid i Brif Swyddogion sicrhau bod gweithwyr yn eu Gwasanaeth yn ymwybodol o ganllawiau o'r fath ac fe ddylent sicrhau cydymffurfiaeth.

.3.4 Gallai unrhyw fethiant gan swyddog i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth o'r Rheolau hyn arwain at gamau disgyblu.

## .4 EITHRIADAU I'R RHEOLAU

.4.1 Nid yw'r Rheolau hyn yn berthnasol i:

(a) caffael neu waredu tir;

(b) contractau cyflogaeth sy'n gwneud unigolyn yn weithiwr uniongyrchol yn y Cyngor;

(c) defnyddio gwasanaethau mewnol y Cyngor;

(d) dyfarnu Grantiau (nid yw Grantiau'n cael eu rheoleiddio gan gyfraith caffael cyhoeddus gan nad ydynt yn gontractau cyhoeddus. Fodd bynnag, maent yn cael eu rheoleiddio gan y rheolau ar gymorth gwladwriaethol a chan reolaethau cyfraith gyhoeddus gyffredinol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd ymddiriedol a gwario arian cyhoeddus yn briodol, ynghyd ag amodau penodol a allai gynnwys gofynion caffael);

(e) gorchmynion unigol a roddir dan gontractau sy'n darparu er mwyn rhoi gorchmynion yn erbyn atodlenni cyfraddau cytunedig, neu dan gontract tymor penodol neu dan Gytundeb Fframwaith, cyhyd ag y bo contractau neu Gytundebau Fframwaith o'r fath wedi'u gosod gan y CBC yn unol â'r Rheolau hyn;

(f) archebion unigol a roddir dan Wasanaeth Masnach y Goron a/neu Gytundeb Fframwaith gosod Llywodraeth Cymru neu Gytundeb Fframwaith sector cyhoeddus arall lle mae gan y CBC hawl i wneud archebion dan gytundebau o'r fath;

(g) contractau am wasanaethau yr ymrwymwyd iddynt yn unol â phwerau Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 a Deddf Plant 1989 er budd unigolyn;

(h) cyfarwyddiadau a briffiadau a gyflwynir gan neu ar ran y Swyddog Monitro i Gwnsel. Bydd y Swyddog Monitro yn gwneud trefniadau i sicrhau bod cofnod yn cael ei gadw o'r holl gyfarwyddiadau neu friffiadau o'r fath, ynghyd â chofnod o ffi'r Cwnsel;

(i) Nwyddau, Gwasanaethau a Gwaith a gaffaelwyd gan gorff cyhoeddus arall ar ran neu er cyd-fudd y CBC a phartïon eraill (h.y. trefniant caffael ar y cyd, megis contractau a ddyfarnwyd drwy Gonsortiwm Prynu Cymru ac ati) ac ar yr amod, mewn achos o'r fath, bod cydymffurfiaeth â rheolau caffael/contract y corff cyhoeddus arall, holl ofynion cyfraith caffael y DU, ac egwyddorion sylfaenol Cyfamod yr UE. Rhaid ceisio cyngor gan y Rheolwr Caffael cyn dibynnu ar unrhyw drefniant o'r fath. Wrth ddibynnu ar yr eithriadau a nodir uchod, dylai'r Swyddog Awdurdodedig sicrhau bod y CBC yn cael y gwerth gorau bosib am arian.

## .5 <u>TREFNIADAU FFRAMWAITH LEDLED Y CYNGOR</u>

.5.1 Lle bo modd, rhaid defnyddio Trefniadau Fframwaith a phrynu corfforaethol presennol y CBC a osodir yn unol â'r Rheolau hyn, heblaw bod y Rheolwr Caffael wedi cytuno fel arall mewn amgylchiadau eithriadol. Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn cadw cofrestr o gytundebau o'r fath ac fe all roi

cyngor ar eu defnydd.

## .6 AMCANGYFRIF GWERTH Y CONTRACT

.6.1 Ni fydd unrhyw waith neu ofynion am nwyddau neu wasanaethau yn cael eu gwahanu'n artiffisial i osgoi cydymffurfiaeth â chyfraith caffael y DU neu'r Rheolau hyn.

.6.2 Amcan werth Contract/ymarferiad caffael fydd gwerth yr ystyriaeth lawn, net T.A.W. y disgwylia'r CBC i fod yn daladwy dan y Contract.

.6.3 Wrth bennu gwerth yr ystyriaeth lawn, y mae'r CBC yn disgwyl ei dalu, bydd y Cyngor, lle bo hynny'n berthnasol, yn ystyried:-

(a) unrhyw fath o opsiwn

(b) tymor/cyfnod y Contract arfaethedig

(c) unrhyw hawliau i adnewyddu'r Contract/ymestyn cyfnod y Contract

(d) unrhyw bris, taliad, premiwm, ffioedd, comisiwn, budd neu unrhyw fath o gydnabyddiaeth arall sy'n daladwy dan y Contract arfaethedig neu mewn perthynas â'r ymarferiad caffael arfaethedig.

.6.4 Wrth bennu gwerth unrhyw Gontract am logi Nwyddau, os yw tymor y Contract yn amhenodol neu'n ansicr ar yr adeg pan ymrwymir i'r Contract, yna ystyrir bod y gwerth gyfystyr â gwerth yr ystyriaeth fisol wedi'i luosi â 48.

.6.5 Wrth bennu gwerth unrhyw Gontract am ddarparu Gwasanaethau neu wneud Gwaith, os yw tymor y Contract yn amhenodol neu'n ansicr ar yr adeg pan ymrwymir i'r Contract, yna ystyrir bod y gwerth gyfystyr â gwerth yr ystyriaeth fisol wedi'i luosi â 48.

.6.6 Lle bo gan y CBC ofynion dros gyfnod o amser am Nwyddau a Gwasanaethau lle mae gan y contractau nodweddion tebyg ac mae'r Nwyddau a'r Gwasanaethau o'r un math, ac yn ymrwymo i gyfres o gontractau neu gontract sy'n adnewyddadwy, yna bydd yr amcan werth yn cael ei gyfrifo drwy gyfanswm y gwariant ar faterion o'r fath dros y 12 mis diwethaf neu'r amcan wariant a ragwelir ar gyfer y 12 mis nesaf, p'un bynnag yw'r mwyaf.  Wrth amcangyfrif y gwerth hwn, rhaid cael cyngor gan y Rheolwr Caffael ac mae'n rhaid ystyried darpariaethau Rheoliad 6 y Rheoliadau.

.6.7 Ar gyfer Cytundebau Fframwaith, neu debyg, heb wariant blynyddol hysbys, ond â hyd sy'n fwy na blwyddyn, bydd hyd nifer y blynyddoedd yn cael ei luosi â'r gwariant blynyddol tebygol ac mae'n rhaid ei bennu mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael.  Y cyfnod mwyaf a ganiateir bellach dan Reolau Caffael y DU ar gyfer Cytundebau Fframwaith yw 4 blynedd.

**.7 CONTRACTAU DAN £50,000 (Dyfynbrisiau)**

.7.1 Lle bo modd, rhaid cael nwyddau, gwasanaethau a gwaith drwy Gytundebau Fframwaith, rhestrau sefydlog neu drefniadau consortia corfforaethol presennol.

.7.2 Lle nad oes trefniadau cymeradwy presennol, rhaid ceisio'r nifer a ganlyn o ddyfynbrisiau a rhoi tystiolaeth o hynny yn unol â Rheolau .7.3 neu .7.4.

(a) Dim ond un dyfynbris sydd ei angen am waith hyd at £5,000;

(b) Mae angen tri dyfynbris ar gyfer gwaith rhwng £5,000 a £50,000.

.7.3 Am ymarferiadau Caffael o hyd at £5,000, rhaid i'r dyfynbris a geir fod yn ysgrifenedig er mwyn arddangos gwerth gorau a chyfanrwydd y broses. Rhaid i'r Gwasanaeth gadw'r wybodaeth hon.

.7.4 O ran ymarferiadau Caffael o £5,000 i £50,000, fe gedwir cofnodion yn nodi pa Gontractwyr a ddewiswyd i roi dyfynbris, i bwy y dyfarnwyd y Contract a'r rhesymau am wneud hynny (pris isaf neu'r cynnig sy'n arddangos gwerth gorau i'r CBC a pham), fel bod modd arddangos gwerth gorau a chyfanrwydd y broses. Bydd dyfynbrisiau'n cael eu cadw'n gyfrinachol hyd nes y dyfernir y contract. Rhaid i'r Gwasanaeth gadw'r wybodaeth hon. Mae'n bwysig gwerthfawrogi bod yn rhaid rhoi gwybod i Gontractwyr sut bydd eu dyfynbrisiau yn cael eu gwerthuso a dylid nodi'r wybodaeth hon yn glir pan ofynnir i Gontractwyr roi dyfynbris.

.7.5 Lle mae angen rheolaidd am nwyddau, gwasanaethau a gwaith tebyg, ac nad yw'r trefniadau a ddisgrifir yn Rheol .5 ar gael, rhaid ystyried dyfarnu trefniant fframwaith a rhaid cael cyngor gan y Rheolwr Caffael.

.7.6 Lle bo nwyddau, gwasanaethau neu waith yn cael eu caffael yn rheolaidd o un cyflenwr penodol dan y Rheol hon a bod gwerth cyfanredol y contractau hynny'n fwy na £50,000 mewn unrhyw flwyddyn ariannol, rhaid i'r Pennaeth Adran adrodd ar y mater i'r Rheolwr Caffael fydd yn cynnal adolygiad o'r trefniadau hyn o ran sicrhau cydymffurfiaeth â'r Rheolau hyn a Pholisïau a Strategaethau'r Cyngor.

**.8 CONTRACTAU SYDD YN WERTH MWY NA £50,000 (TENDRAU)**

.8.1 O ran ymarferiadau caffael sydd ag amcan werth o fwy na £50,000, rhaid gwahodd o leiaf dri thendr ysgrifenedig.

.8.2 I weld y rheolau ynghylch: Cyn-gymhwyso, Gwahoddiad i Dendro, Derbyn Tendrau, Cystodaeth ac Agor Tendrau, Gwerthuso Tendr, Negodi ar ôl y Tendr, y Tîm Gwerthuso, Risg a Dyfarnu Contractau, gweler rheolau .12 i .25.

.8.3 Bydd yr Uned Caffael Corfforaethol yn cynnal Cofrestr Contract Corfforaethol fydd yn cadw cofnod o bwy y dyfernir contractau iddynt a'r llwybr caffael ymhob achos. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig ddarparu'r holl wybodaeth ofynnol i hwyluso hyn i'r Rheolwr Caffael Corfforaethol.

.8.4 Rhaid i bob tendr ddefnyddio rhif cyfeirnod tendr a rhoi gwybod i'r Uned Caffael Corfforaethol am y rhif hwn.

**.9 Y CONTRACTAU Y MAE'R RHEOLIADAU YN BERTHNASOL IDDYNT**

.9.1 O ran ymarferion caffael sy'n cael eu trin dan y Rheoliadau:

(a) gwahoddir tendrau yn unol â gofynion y cyfarwyddebau hyn a'r Rheoliadau sydd mewn grym ar hyn o bryd; a

(b) bydd cyfarwyddebau a Rheoliadau o'r fath yn rhagori ar y Rheolau hyn;

(c) bydd cyfarwyddebau a Rheoliadau o'r fath yn cynnwys gofynion sy'n fwy na'r gofynion a nodir yn y Rheolau hyn.

.9.2 Gellir cael cyngor ac arweiniad ar p'un a yw ymarferiad caffael penodol yn destun y Rheoliadau gan y Rheolwr Caffael a'r Swyddog Monitro.

.9.3 Y trothwyon cyfredol, fel ar 1 Ionawr, 2022 yw:

- Gwasanaethau £213,477
- Cyflenwadau £213,477
- Gwaith £5,336,937
- Contract 'Light Touch' am Wasanaethau £663,540

Rhaid nawr gyfrifo gwerth yr ymarferiad caffael yn cynnwys TAW yn unol â Nodyn Polisi Caffael 10/21.

Mae'r trothwyon yn newid bob dwy flynedd ac maent i fod i newid eto ar 1 Ionawr 2024.

.9.4 Mae'r Uned Caffael Corfforaethol yn gyfrifol am goladu a chyflwyno dychweliadau ystadegol yn unol â Rheoliad 40 y Rheoliadau a byddant yn gwneud y trefniadau angenrheidiol i wybodaeth gael ei chasglu bob blwyddyn. Bydd y Penaethiaid Gwasanaeth yn cydymffurfio â'r trefniadau hyn.

**.10 YMGYNGHORWYR**

.10.1 Penodir unrhyw ymgynghorwyr a ddefnyddir gan y CBC yn unol â'r Rheolau hyn. Pan fo'r CBC yn defnyddio Ymgynghorwyr i weithredu ar ei ran mewn perthynas ag unrhyw ymarferiad caffael, yna bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn sicrhau bod yr ymgynghorwyr yn cynnal yr ymarferiad caffael yn unol â'r gorchmynion sefydlog contract hyn. Ni fydd unrhyw ymgynghorydd yn gwneud penderfyniad ar p'un ai i ddyfarnu contract neu o ran pwy ddylid dyfarnu contract iddo. Bydd y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn sicrhau bod perfformiad yr ymgynghorydd yn cael ei fonitro.

**.11 IS-GONTRACTWYR WEDI'U HENWEBU A'U HENWI**

.11.1 Os bydd is-gontractwr, cyflenwr neu is-ymgynghorydd yn cael ei enwebu

neu'n cael ei enwi i brif gontractwr, rhaid gwahodd dyfynbrisiau neu dendrau yn unol â'r Gorchmynion Sefydlog hyn a bydd telerau'r gwahoddiad yn cyd-fynd â'r prif gontract.

**.12 CYN-GYMHWYSO (yn berthnasol i bawb)**

.12.1 Ni fydd y CBC yn ymrwymo i Gontract â Chontractwr oni bai ei fod yn fodlon o ran cymwyseddau'r Contractwr. Gallai'r meini prawf ar gyfer dewis Tendrwyr gynnwys, ond nid oes yn rhaid iddynt fod yn gyfyngedig i:

(a) Cymhwysedd technegol neu broffesiynol a phrofiad, gan gynnwys cymwysterau;

(b) Iechyd a Diogelwch;

(c) Ansawdd, yn cynnwys awdurdodiad gan sefydliadau rheoli ansawdd swyddogol neu asiantaethau cydnabod cymhwysedd ac/neu sy'n profi cydymffurfiaeth â safonau rheoli ansawdd ac/neu mesurau neu gyrff neu safonau cyfwerth;

(d) Statws ariannol ac economaidd, gan gynnwys darpariaethau yswiriant priodol;

(e) Cynaliadwyedd, gan gynnwys mesurau rheoli amgylcheddol, a

(f) Tystiolaeth p'un a ydynt yn anaddas ar sail, e.e. diffygdalu, euogfarn droseddol neu fethiant i dalu trethi.

.12.2 Bydd unrhyw ymarferion caffael sy'n destun y Rheoliadau, yn cydymffurfio â'r Rheoliadau priodol.

.12.3 Bydd yr holl brosesau Cyn-gymhwyso yn cydymffurfio â'r egwyddorion y cyfeirir atynt yn .1.3 uchod a rhaid llunio unrhyw ofynion yn unol â'r Cyn-gymhwyso er mwyn osgoi torri'r egwyddorion hyn.

.12.4 Bydd yr holl gyfyngiadau amser ar gyfer y Prosesau Cyn-gymhwyso yn rhesymol ac yn ystyried pwnc y contract, gwerth y contract ac Egwyddorion y Cyfamod.

**.13 Y GWAHODDIAD I DENDRO**

.13.1 Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i'r holl wahoddiadau i Dendro, waeth beth fo'u gwerth.

.13.2 Rhaid i'r gwahoddiad i dendro gynnwys manylion gofynion y CBC ar gyfer y contract penodol, yn cynnwys:

(a) manyleb o'r Gwasanaethau, y Nwyddau neu'r Gwaith sy'n cael ei gaffael a chyfarwyddiadau ynghylch p'un a ganiateir unrhyw amrywiadau;

(b) yr amserlen caffael, yn cynnwys dyddiad ac amser dychwelyd y tendr, a bydd hwn yn rhoi cyfnod rhesymol o amser i'r ymgeiswyr

baratoi eu tendrau;

(c) telerau ac amodau contract y Cyngor;

(d) y meini prawf gwerthuso, gan gynnwys y pwysoli;

(e) Ffurf y Tendr;

(f) mecanwaith prisio a chyfarwyddiadau ar gyfer cwblhau;

(g) p'un a yw'r CBC o'r farn y bydd TUPE yn berthnasol;

(h) ffurf a chynnwys y datganiadau dull i'w darparu;

(i) y rheolau ar gyfer cyflwyno tendrau;

(j) cyfeirnod y tendr;

(k) unrhyw wybodaeth bellach fydd yn hysbysu neu'n cynorthwyo'r Tendrwyr wrth baratoi tendrau.

.13.3 Bydd gofyn i bob Tendrwr sy'n cyflwyno tendr lofnodi datganiad sy'n nodi:

(a) nad ydynt ac na fyddant yn rhoi gwybod i unrhyw berson arall beth yw swm eu tendr;

(b) nad ydynt wedi pennu swm unrhyw dendr yn unol â threfniant pennu pris;

(c) eu bod yn derbyn bod gan y CBC hawl i ganslo'r contract ac adfer ganddynt swm unrhyw golled a ddaw yn sgil unrhyw ganslo o'r fath os canfyddir bod unrhyw weithred lwgr neu dwyllodrus neu hepgoriad ganddynt hwy sydd wedi gwneud i'r CBC ymrwymo i'r contract;

(d) cydnabod nad yw'r CBC wedi'i rwymo i dderbyn y tendr isaf nac unrhyw dendr a gyflwynwyd, y gellir atal yr ymarferiad tendro ar unrhyw gam yn ystod y broses dendro a'u bod yn gyfrifol am unrhyw gostau a threuliau a ddaw yn sgil llunio tendr.

.13.4 Bydd yr hol gyfyngiadau amser ar gyfer y Prosesau Tendro yn ddigon rhesymol ac yn ystyried pwnc y contract, gwerth y contract ac Egwyddorion y Cyfamod.

## .14. Y WEITHDREFN DENDRO (GWEITHDREFN AGORED)

.14.1 O ran ymarferion caffael nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau, bydd y CBC yn cyhoeddi rhybudd ar wefan y CBC Gwerthwch i Gymru a, lle bo hynny'n briodol, yn ystyried gofynion y Rheolau hyn, o leiaf un o'r hyn a ganlyn - y wasg leol, ac unrhyw wasg genedlaethol ac/neu gylchgronau masnach, er mwyn targedu'r farchnad briodol ar gyfer y contract penodol. Bydd graddfa a natur y cyhoeddiad yn gymesur â gwerth a phwnc yr ymarferiad Caffael ac fe ystyrir Egwyddorion y Cyfamod.

.14.2 Bydd yr hysbyseb yn cynnwys manylion y contract arfaethedig ac yn nodi cyfyngiad amser lle y gallai partïon â diddordeb fynegi diddordeb mewn tendro am y contract. Ar ôl i'r terfyn amser ar gyfer mynegi diddordeb ddod i ben, bydd y CBC yn anfon ITT i unrhyw barti sy'n mynegi diddordeb. Bydd yr ITT yn nodi'r dyddiad dychwelyd ar gyfer tendrau.

.14.3 Gwahoddir yr holl Dendrwyr sy'n mynegi diddordeb i gyflwyno tendr. O ran ymarferion caffael sydd ag amcan werth sy'n uwch na £50,000 lle mae llai na thri Thendrwr wedi mynegi diddordeb, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael, bennu p'un a oes digon o ddiddordeb i arddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu parhau â'r ymarferiad Caffael.

## .15 Y WEITHDREFN DENDRO (GWEITHDREFN GYFYNGEDIG)

.15.1 O ran ymarferion Caffael nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau, bydd y CBC yn cyhoeddi rhybudd yn unol â Rheol .14.1, ond bydd y rhybudd yn nodi bod y Weithdrefn Gyfyngedig yn cael ei defnyddio.

.15.2 Dim ond y Tendrwyr a ddewisir gan y Cyngor a wahoddir i dendro. Bydd Tendrwyr ond yn cael eu dewis ar y sail bod y meini prawf Cyn-gymhwyso a gyhoeddwyd yn cydymffurfio â Rheol .12.

.15.3 Rhaid dewis o leiaf 3 Tendrwr i gyflwyno tendr. O ran ymarferion caffael sydd ag amcan werth sy'n uwch na £50,000 lle mae llai na thri Thendrwr wedi mynegi diddordeb neu'n gymwys i gael eu gwahodd i dendro, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael, bennu p'un a oes digon o ddiddordeb i arddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu parhau â'r ymarferiad Caffael.

## .16 Y WEITHDREFN DENDRO (GWEITHDREFN WEDI'I NEGODI)

.16.1 O ran ymarferion Caffael nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau, bydd y CBC yn cyhoeddi rhybudd yn unol â Rheol .14.1, ond bydd y rhybudd yn nodi bod y Weithdrefn Gyfyngedig yn cael ei defnyddio.

.16.2 Dim ond y Tendrwyr a ddewisir gan y CBC a wahoddir i negodi. Bydd Tendrwyr ond yn cael eu dewis ar y sail bod y meini prawf Cyn-gymhwyso a gyhoeddwyd yn cydymffurfio â Rheol .12 y Rheolau hyn.

.16.3 Rhaid dewis o leiaf 3 Thendrwr i gyflwyno tendr. O ran ymarferion caffael sydd ag amcan werth sy'n uwch na £50,000 lle mae llai na thri Thendrwr wedi mynegi diddordeb neu'n gymwys i gael eu gwahodd i dendro, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael, bennu p'un a oes digon o ddiddordeb i arddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu parhau â'r ymarferiad Caffael.

.16.4 O ran ymarferion caffael sydd ag amcan werth sy'n uwch na £50,000, bydd o leiaf dau swyddog, gydag o leiaf un ohonynt yn Bennaeth Gwasanaeth neu Uwch Reolwr, yn bresennol bob amser yn ystod y negodi.

.16.5 Bydd y CBC yn cadw cofnodion priodol o'r holl negodi a bydd y rhain yn cael eu llofnodi fel y cyfryw gan yr holl gyfranogwyr.

.16.6 Drwy gydol y negodi, bydd y CBC yn gweithredu Egwyddorion y Cyfamod.

.16.7 Dim ond o dan yr amgylchiadau a ganlyn y defnyddir y Weithdrefn wedi'i Negodi:

(a) dan amgylchiadau pan fo'r weithdrefn sy'n arwain at y CBC yn dyfarnu contract gan ddefnyddio'r Weithdrefn Agored, y Weithdrefn Gyfyngedig neu'r Weithdrefn Deialog Gystadleuol, yn cael ei dirwyn i ben yn sgil tendrau anghyson; neu dendrau annerbyniol ond dim ond os na newidiwyd telerau gwreiddiol y contract arfaethedig a gynigiwyd yn y weithdrefn a gafodd ei dirwyn i ben, yn sylweddol yn y weithdrefn wedi'i negodi;

(b) yn eithriadol, ac mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael, pan fo natur y gwaith sydd i'w wneud, y nwyddau i'w prynu neu'u llogi neu'r gwasanaethau i'w darparu dan y contract neu'r risgiau cysylltiedig â hwy o'r fath fel na chaniateir prisio cyffredinol ymlaen llaw;

(c) o ran contract gwasanaethau, pan fo natur y gwasanaethau i'w darparu, yn enwedig o ran gwasanaethau ariannol a gwasanaethau deallusol, megis gwasanaethau sy'n ymwneud â dylunio gwaith, o'r fath fel nad oes modd sefydlu'r manylebau â digon o fanylder fel y caniateir dyfarnu'r contract gan ddefnyddio'r Weithdrefn Agored neu'r Weithdrefn Gyfyngedig; neu

(d) o ran gwaith, pan fo'r gwaith i'w wneud dan y contract i'w wneud yn gyfan gwbl er dibenion ymchwil, profi neu ddatblygu ond nid gyda'r nod o sicrhau elw neu adennill costau ymchwil a datblygu.

.16.8 O ran ymarferion Caffael nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau, gall y CBC negodi contract yn uniongyrchol ag un contractwr yn unig yn yr amgylchiadau a ganlyn ac, ac eithrio'r darpariaethau brys yn (c) isod, o ran ymarferion caffael sydd ag amcan werth o fwy na £50,000, ni ellir cymhwyso'r weithdrefn hyd nes y cynhelir ymgynghoriad ysgrifenedig ymlaen llaw â Rheolwr Caffael y Cyngor.

(a) lle na chyflwynir tendrau, tendrau addas neu geisiadau mewn ymateb i wahoddiad i dendro gan y CBC gan ddefnyddio'r Weithdrefn Agored neu Gyfyngedig, ond dim ond os nad yw telerau gwreiddiol y contract arfaethedig a gynigiwyd yn y weithdrefn a gafodd ei dirwyn i ben wedi'u newid yn sylweddol yn y Weithdrefn wedi'i Negodi;

(b) pan, am resymau technegol neu artistig, neu am resymau cysylltiedig â gwarchod hawliau allgynhwysol, y gellir dyfarnu'r contract i Gontractwr penodol yn unig;

(c) pan (ond dim ond os oes gwir angen) am resymau brys eithriadol a ddaw yn sgil digwyddiad nad oedd modd ei ragweld gan y Cyngor, ac nid oes modd eu priodoli iddo, a bod dim digon o amser i wahodd tendrau (dan amgylchiadau o'r fath bydd y Rheolwr Caffael yn cael gwybod am ddefnydd y weithdrefn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ymhob ymarferiad caffael gyda gwerth amcangyfrifiedig o fwy na £50,000.00);

(d) o ran contract cyflenwi:

(i) pan fo'r nwyddau i'w prynu neu i'w llogi dan y contract i gael eu cynhyrchu'n unig er dibenion ymchwil, arbrofi, astudio neu ddatblygu ond nid pan fo'r nwyddau i'w prynu neu'u llogi gyda'r bwriad o sicrhau elw neu adennill costau ymchwil a datblygu;

(ii) pan fo'r nwyddau i'w prynu neu i'w llogi dan y contract yn ofynnol gan y CBC yn rhannol yn lle nwyddau neu osodiad presennol, neu yn ychwanegol atynt a phan, i gael y nwyddau gan gyflenwr gwahanol i'r cyflenwr a gyflenwodd y nwyddau neu'r gosodiad presennol byddai gofyn i'r CBC gael nwyddau ag iddynt nodweddion technegol gwahanol fyddai'n arwain at:

- y nwyddau presennol neu'r gosodiad a'r nwyddau i'w prynu neu i'w llogi dan y contract yn anghydnaws; neu
- anawsterau technegol anghymesur yng ngweithrediad a chynnal a chadw'r nwyddau presennol neu'r gosodiad;

(e) er mwyn prynu neu logi nwyddau a ddyfynnwyd ac a brynwyd ar farchnad nwyddau;

(f) i fanteisio ar delerau sy'n benodol fanteisiol er mwyn prynu nwyddau mewn sêl cau i lawr sy'n digwydd gan bod cyflenwr yn destun ansolfedd;

(g) o ran contract gwasanaethau, pan fo rheolau cystadleuaeth dylunio angen i'r contract gael ei ddyfarnu i'w cystadleuydd llwyddiannus neu i un o'r cystadleuwyr llwyddiannus, cyhyd ag y bo'r holl gystadleuwyr llwyddiannus wedi'u gwahodd i negodi'r contract.

## .17 ESTYNIADAU I GONTRACTAU

.17.1 O ran ymarferion Caffael nad ydynt yn cael eu llywodraethu gan y Rheoliadau, gall y CBC ddefnyddio'r Weithdrefn wedi'i Negodi yn 17.16.8 uchod i negodi estyniad i Gontract yn uniongyrchol ag un contractwr yn unig yn yr amgylchiadau a ganlyn ac yn amodol ar yr amodau a ganlyn:

Amod 1

Pan fo gwerth y contract cychwynnol neu amcan werth cyfanredol y contract ac unrhyw estyniad yn fwy na £50,000.00, rhaid gwneud penderfyniad mewn ymgynghoriad â Rheolwr Caffael y Cyngor.

Amod 2

Pan fo gwerth y contract cychwynnol neu amcan werth cyfanredol y contract ac unrhyw estyniad yn fwy na £100,000.00, rhaid gwneud penderfyniad mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cyllid a'r Swyddog Monitro.

(i) o ran contract gwaith neu gontract gwasanaethau -

pan fo'r CBC eisiau i Gontractwr sydd wedi ymrwymo i gontract gwaith neu gontract gwasanaethau gyda'r CBC wneud gwaith ychwanegol neu ddarparu gwasanaethau ychwanegol nad oedd wedi'u cynnwys yn y prosiect ar y dechrau, neu yn y contract gwaith neu'r contract gwasanaethau gwreiddiol ond a ddaeth yn angenrheidiol drwy amgylchiadau nad oedd modd eu rhagweld, ac unrhyw waith neu wasanaethau:

- na ellir eu gwneud am resymau technegol neu economaidd na'u darparu ar wahân i'r rhai dan y contract gwreiddiol heb greu anhwylustod mawr i'r Cyngor; neu
- y gellir eu gwneud neu y gellir eu darparu ar wahân i'r rhai dan y contract gwreiddiol ond sydd yn hollol angenrheidiol yng nghamau diweddarach y contract hwnnw; a

cyhyd ag y bo gwerth cyfanredol yr ystyriaeth sydd i'w rhoi dan gontractau ar gyfer gwaith neu wasanaethau ychwanegol yn ddim mwy na 50 y cant o werth yr ystyriaeth sy'n daladwy dan y contract gwreiddiol.

(ii) pan fo'r CBC eisiau i Gontractwr sydd wedi ymrwymo i gontract gwaith neu gontract gwasanaethau gyda'r CBC wneud gwaith newydd neu ddarparu gwasanaethau newydd sy'n ailadrodd gwaith a wnaed neu wasanaethau a ddarparwyd dan y contract gwreiddiol ac sy'n unol â'r prosiect ar gyfer y diben yr ymrwymwyd â'r contract gwreiddiol, ar yr amod:

- bod yr hysbysiad a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r contract gwreiddiol yn nodi bod modd i'r contract gwaith neu gontract gwasanaethau ar gyfer gwaith neu wasanaethau newydd a fyddai'n ailadrodd y gwaith a wnaed neu'r gwasanaethau a ddarparwyd dan y contract gwreiddiol, gael ei ddyfarnu gan ddefnyddio'r weithdrefn wedi'i negodi yn unol â Rheol 17.16.8;
- wrth bennu amcan werth y contract gwreiddiol er dibenion

paragraff 17.6, bu i'r CBC ystyried gwerth yr ystyriaeth y disgwylir i fod yn daladwy am y gwaith neu'r gwasanaethau newydd; a

- y dechreuir ar y weithdrefn ar gyfer dyfarnu'r contract newydd ymhen 3 blynedd o ymrwymo i'r contract newydd.

**.18 Y WEITHDREFN DENDRO (DEIALOG GYSTADLEUOL)**

.18.1 Mewn contractau penodol gymhleth lle na all y CBC naill ai:

(i) ddiffinio'r dull technegol o fodloni ei anghenion neu ei amcanion, neu

(ii) nodi naill ai luniad cyfreithiol neu ariannol prosiect neu'r ddau ac ystyried na fydd naill ai'r drefn agored gyfyngedig neu negodi yn galluogi dyfarniad y contract, efallai y defnyddir y weithdrefn deialog gystadleuol.

.18.2 Mae'r CBC yn cyhoeddi hysbysiad. Dim ond y Tendrwyr a ddewisir gan y CBC fydd yn cael gwahoddiad i fod yn rhan o'r broses deialog gystadleuol. Mae tendrwyr yn cael eu dewis yn seiliedig ar y meini prawf a nodir yn yr Hysbysiad Contract. Bydd yr hysbysiad yn nodi bod y weithdrefn deialog gystadleuol yn cael ei defnyddio.

.18.3 Dylid gwahodd o leiaf dri thendrwr i gymryd rhan yn y broses deialog gystadleuol ar ôl i'r Hysbysiad gael ei gyhoeddi. Lle mae llai na thri thendrwr wedi mynegi diddordeb neu'n gymwys i gael eu gwahodd i dendro, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig, mewn ymgynghoriad â'r Rheolwr Caffael, bennu p'un a oes digon o ddiddordeb i arddangos gwir gystadleuaeth cyn penderfynu p'un ai i barhau â'r ymarferiad caffael.

.18.4 Bydd o leiaf ddau swyddog, ac o leiaf un yn Bennaeth Gwasanaeth neu Uwch Reolwr, yn bresennol bob amser yn ystod y broses deialog gystadleuol.

.18.5 Bydd y CBC yn cadw cofnodion priodol o'r holl drafodaethau a bydd y rhain yn cael eu llofnodi fel y cyfryw gan yr holl gyfranogwyr.

.18.6 Drwy gydol y broses deialog gystadleuol, bydd y CBC yn ystyried ac yn gweithredu'r egwyddorion o degwch, cyfrinachedd, dim gwahaniaethu, trin yn gyfartal a thryloywder.

.18.7 Ni fydd proses gystadleuol y weithdrefn deialog yn cael ei defnyddio ar gyfer contract gydag amcan werth sy'n is na throthwyon y Rheoliadau.

**.19 DERBYN, CYSTODAETH AC AGOR TENDRAU**

.19.1 Rhaid i wahoddiadau i dendro nodi'n glir beth yw'r dyddiad a'r amser dychwelyd diweddaraf.

.19.2 Rhaid dychwelyd yr holl dendrau gan ddefnyddio'r amlen swyddogol neu'r label dychwelyd swyddogol ac ni ddylid marcio'r amlen mewn unrhyw ffordd fel bod modd gwybod pwy yw'r tendrwr.

.19.3 Bydd tendrau sydd ag amcan werth sy'n llai na £50,000 (os y'i derbynnir drwy'r post yn yr amlen swyddogol neu gan ddefnyddio'r label dychwelyd tendr swyddogol) yn cael eu dychwelyd i'r Pennaeth Gwasanaeth. Bydd tendrau'n cael eu hagor ym mhresenoldeb dau weithiwr sydd wedi'u dynodi gan y Pennaeth Gwasanaeth neu'r maes gwasanaeth perthnasol, fel y bo'r achos. Rhaid i'r gweithwyr fod yn annibynnol o'r dasg o osod y Contract. Pan agorir y tendrau, bydd pob tendr yn cael ei gofnodi ar gofrestr tendrau a bydd y tendrau a'r gofrestr yn cael eu llofnodi â phriflythrennau'r swyddogion dynodedig sy'n bresennol ar y pryd, ac fe nodir y dyddiad arnynt. Anfonir copi o gofnod o'r fath i'r Rheolwr Caffael.

.19.4 Rhaid cyfeirio tendrau sydd ag amcan werth sy'n fwy na £50,000 at y Swyddog Monitro drwy'r post gan ddefnyddio'r amlen swyddogol neu'r label dychwelyd tendrau swyddogol a ddarparwyd gan y Cyngor. Bydd y Swyddog Monitro yn gyfrifol am dderbyn, am gystodaeth ac am agor tendrau o'r fath. Bydd tendrau ar gyfer yr un ymarferiad caffael yn cael eu hagor un ar ôl y llall yn ystod yr un sesiwn, a hynny ym mhresenoldeb dau weithiwr a ddynodwyd ar gyfer y diben hwnnw. Caiff un gweithiwr ei enwebu gan y Swyddog Monitro a bydd y gweithiwr arall yn cael ei enwebu gan y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol. Rhaid i'r gweithwyr fod yn annibynnol o'r dasg o osod y Contract. Ar ôl eu hagor, bydd y tendrau'n cael eu cofnodi mewn cofrestr tendrau a bydd y tendrau a'r gofrestr yn cael eu llofnodi â phriflythrennau'r swyddogion dynodedig sy'n bresennol ar y pryd, ac fe nodir y dyddiad arnynt. Yna, anfonir y tendrau sydd wedi'u hagor at y swyddog gwerthuso.

.19.5 Ni fydd unrhyw Dendr sy’n cyrraedd ar ôl y dyddiad a’r amser derbyn tendrau hwn yn cael ei dderbyn.

## .20 TENDRO ELECTRONIG

.20.1 Gyda chytundeb y Rheolwr Caffael, efallai y bydd y broses dendro, gan gynnwys gwahodd a derbyn tendrau, yn cael ei chynnal yn electronig gan ddefnyddio teclynnau eGaffael y CBC ac fe ellir addasu darpariaethau Rheolau .14 i .19 i hwyluso hyn, cyhyd ag y bo'r system electronig a ddefnyddir wedi'i chymeradwyo gan yr Uwch Reolwr Refeniw a Risg.

.20.2 Wrth wneud cais am sawl dyfynbris neu dendr, dylid osgoi defnyddio cyfeiriad e-bost personol neu generig i sicrhau bod bidiau'n cael eu derbyn yn unol â'r gweithdrefnau agor a bod y bidiau'n cael eu cofnodi'n gywir wrth gael eu derbyn.

## .21 GWERTHUSO’R TENDR

.21.1 Bydd tendrau'n cael eu gwerthuso yn unol â'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoliadau a nodir yn y gwahoddiad i dendro. Bydd pob contract, ac eithrio contractau pan bennwyd ymlaen llaw fod y pris isaf yn faen prawf priodol, yn cael ei ddyfarnu ar sail y cynnig sy'n cynrychioli'r gwerth am arian gorau i'r CBC (y tendr sydd fwyaf manteisiol yn economaidd) gan ystyried y meini prawf gwerthuso a'r pwysoli a osodir. Rhaid pennu'r meini prawf gwerthuso a'r pwysoli ymlaen llaw, a'u rhestru yn y dogfennau gwahoddiad i dendro. Yn ogystal, bydd y meini prawf a'r

pwysoli yn cael eu dilyn yn gaeth (ac yn parhau heb eu newid) bob amser drwy gydol y weithdrefn dyfarnu contract. Gellir cael arweiniad a chymorth ar y meini prawf gwerthuso perthnasol o'r Uned Caffael Corfforaethol a'r Uned Gyfreithiol.

.21.2 Ar ôl agor ac archwilio'r tendrau, os canfyddir camgymeriad yng nghyfrifiant y tendr, rhoddir manylion y camgymeriad i'r Tendrwr, ynghyd â chyfle i gadarnhau bod y tendr a gyflwynir wedi'i gywiro, neu i dynnu eu tendr yn ei ôl.

.21.3 Bob amser yn ystod unrhyw broses o'r fath neu broses egluro, bydd y CBC yn ystyried ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion o beidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal, tryloywder, cyd-gydnabyddiaeth a chyfranoledd; egwyddorion sy'n berthnasol i holl ymarferion Caffael y Cyngor.

## .22 Y TÎM GWERTHUSO

Ar gyfer pob Contract gydag amcan werth sy'n fwy na £50,000, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn llunio tîm gwerthuso ('Tîm Gwerthuso') sy'n gyfrifol am werthuso tendrau. Rhaid cadw cofnod ysgrifenedig o'r gwerthusiad.

## .23 RISG

.23.1 O ran ymarferion Caffael sydd ag amcan werth sy'n fwy na £50,000, bydd y Swyddogion Awdurdodedig yn cynnal asesiad risg ar y cychwyn cyntaf ac yna fe'i diweddarir drwy gydol y Broses Gaffael. Rhaid rhoi gwybod i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau am unrhyw risgiau a nodwyd.

.23.2 O ran ymarferiadau Caffael sydd ag amcan werth o fwy na £50,000, bydd y Tîm Gwerthuso yn ystyried p'un a fydd angen bond perfformiad ac/neu warant rhiant gwmni (os yn berthnasol) gan y Cyflenwr a ffafrir a lle bo gofyniad o'r fath yn codi, sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys fel gofyniad yn y broses gaffael.

.23.3 Ar gyfer yr holl ymarferion Caffael, bydd y Swyddog Awdurdodedig yn ystyried y math priodol (atebolrwydd gweithwyr, atebolrwydd cyhoeddus, indemniad proffesiynol, ac ati) a lefel yr yswiriant sydd ei angen ar gyfer pob contract a sicrhau bod hwn wedi'i gynnwys fel gofyniad yn y broses gaffael.

## .24 Y RHESTR A GYMERADWYWYD

.24.1 Ni ellir ond defnyddio Rhestrau a Gymeradwywyd pan fo contractau ailadroddus neu debyg yn debygol ond lle mae angen prisio contractau o'r fath yn unigol ac nad oes modd eu hagregu a'u prisio yn rhwydd mewn ymarferiad tendro sengl. Ni ellir defnyddio Rhestrau a Gymeradwywyd ar gyfer contractau lle mae'r amcan werth yn fwy na £50,000.

.24.2 Ni ellir rhoi unrhyw gyflenwr ar Restr a Gymeradwywyd hyd nes bod ymchwiliad digonol, gan ystyried Rheol .12 o ran eu gallu ariannol a

thechnegol i weithredu'r contract, oni bai y bydd materion o'r fath yn cael eu harchwilio bob tro y gwahoddir bidiau o'r rhestr honno.

.24.3 Rhaid llunio Rhestrau a Gymeradwywyd ar ôl hysbysebu yn gwahodd ceisiadau i gael eu cynnwys ar y rhestr. Rhaid arddangos yr hysbyseb er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf eang ymysg cyflenwyr perthnasol. Gellir cynnwys personau ar y rhestr rhwng yr hysbyseb gychwynnol a'r ail-hysbyseb cyhyd ag y cydymffurfir â gofynion Rheol .24.2.

.24.4 Rhaid cadw rhestr a gymeradwywyd o gyflenwyr Gwasanaethau mewn dull agored, teg a thryloyw a rhaid iddi fod ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor. Gellir caniatáu unrhyw gais gan weithredwr economaidd i gael ei gynnwys ar y rhestr, cyhyd a'u bod yn bodloni gofynion Rheol .24.2.

.24.5 Rhaid adolygu'r rhestr bob blwyddyn fan leiaf a rhaid ei hail-hysbysebu bob tair blynedd, fan leiaf. Wrth ail-hysbysebu, rhaid anfon copi o'r hysbyseb i bob person ar y rhestr, yn eu gwahodd i ail-ymgeisio. Mae Adolygu yn golygu:

(i) ail-asesu gallu ariannol a thechnegol a pherfformiad y personau hynny sydd ar y rhestr, oni bai bod materion o'r fath yn cael eu harchwilio bob amser y gwahoddir bidiau o'r rhestr honno

(ii) dileu, gyda rhybudd, y personau hynny sydd ddim yn gymwys mwyach, a chofnod ysgrifenedig yn cael ei gadw yn cyfiawnhau'r dilead hwnnw.

## .25 DYFARNU CONTRACTAU

.25.1 Dim ond Swyddog Awdurdodedig a all ddyfarnu contract. Rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig sicrhau, cyn ceisio penderfyniad o'r fath, bod digon o gyllideb yn ei lle i fodloni holl daliadau'r contract ac os oes unrhyw gyllid yn dod gan drydydd parti, y cydymffurfir ag unrhyw amodau sydd ynghlwm â chyllid o'r fath.

.25.2 Lle mae gan y Contract i'w ddyfarnu amcan werth o £250,000 neu fwy, ymhen 5 diwrnod gwaith o ddyddiad dyfarnu'r contract, rhaid hysbysu'r Aelod Cabinet perthnasol yn ysgrifenedig bod y contract wedi'i ddyfarnu a dylai hysbysiad o'r fath gynnwys manylion ynghylch y pwnc dan sylw, y partïon a gwerth y contract.

.25.3 Ni fydd y CBC yn dyfarnu Contract oni bai ei fod yn cynrychioli'r gwerth am arian gorau. Ni fydd Contract yn cael ei ddyfarnu heb ddefnyddio'r meini prawf gwerthuso tendr a bennwyd ymlaen llaw a'r pwysoli. Pan fo tendr yn cael ei werthuso yn seiliedig ar bris yn unig, rhaid i'r Contract, yn ddarostyngedig i Reol .25.4 isod, gael ei ddyfarnu i'r Tendrwr sy'n cyflwyno'r pris isaf.

25.4 Os yw'r Swyddog Awdurdodedig o'r farn bod Tendr yn cael ei ystyried yn annormal o isel, gellir diystyru'r Tendr, ond dim ond os:

(a) yw’r Swyddog Awdurdodedig wedi gwneud cais ysgrifenedig am eglurhad o'r Tendr neu'r Rhannau hynny ohono y mae'n eu hystyried sy'n cyfrannu at bris annormal o isel y cynnig;

(b) ystyriwyd y dystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r cais ysgrifenedig; ac

(c) a ddilyswyd y Tendr wedi hynny.

.25.5 Ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol, ni ddylid gofyn i unrhyw Gontractwr ddarparu unrhyw Wasanaethau, cyflenwi unrhyw Nwyddau neu wneud unrhyw Waith (gan gynnwys Gwaith paratoadol) hyd nes i'r Contract gael ei gwblhau neu bod y Gwasanaethau, y Nwyddau neu'r Gwaith dan sylw wedi'u cynnwys mewn llythyr o fwriad. Rhaid i'r Pennaeth Gwasanaeth sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth dan sylw wneud unrhyw benderfyniad sy'n groes i hyn a bydd unrhyw benderfyniad o'r fath yn cynnwys asesiad risg llawn o ran y goblygiadau posib i'r CBC os bydd y Contractwr yn cael dechrau arni cyn i delerau ac amodau'r contract gael eu cwblhau'n derfynol neu bod llythyr o fwriad yn cael ei gyflwyno.

.25.6 Dim ond o dan yr amgylchiadau eithriadol y defnyddir llythyrau o fwriad, fel a ganlyn:

(a) Lle mae gofyn i Gyflenwr ddarparu gwasanaethau, cyflenwadau neu waith cyn derbyn derbyniad ysgrifenedig gan y Cyngor; neu

(b) Pan nad yw ffurflen tendr y CBC yn cynnwys datganiad hyd nes y bydd contract ffurfiol wedi'i gwblhau, bydd derbyniad ysgrifenedig y CBC o dendr yn rhwymo'r partïon mewn perthynas gytundebol.

## .26 HYSBYSU AM GANLYNIADAU, DI-BRIFFIO A CHYFNOD SEGUR ALCATEL

.26.1 Unwaith y bydd y penderfyniad i ddyfarnu'r contract wedi'i wneud, ac eithrio'r Tendrwr llwyddiannus, bydd pawb sy'n mynegi diddordeb ac yn tendro, yn derbyn llythyr safonol yn cynnwys manylion am yr hyn a ganlyn:

(i) Y meini prawf dyfarnu a'r pwysoli

(ii) Sgôr y Tendrwr yn erbyn y meini prawf dyfarnu a'r pwysoli (lle bo hynny'n berthnasol)

(iii) Sgôr gyffredinol y Tendrwr llwyddiannus; ac

(iv) Enw'r Tendrwr llwyddiannus.

.26.2 Os bydd unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei datgelu i'r Tendrwyr, rhaid dod i gytundeb ar hyn ymlaen llaw â'r Rheolwr Caffael, gan ystyried gofynion unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth.

.26.3 Mae'r rhestr pwyntiau lle y gallai di-briffio fod yn briodol yn cynnwys:

(i) dewis: lle nad yw'r ymgeisydd wedi'i ddewis (ar y rhestr fer) i gymryd rhan yn y broses dendro;

(ii) dyfarnu: pan na ddyfarnwyd y Contract i'r Tendrwr ar ôl gwerthuso'r cynigion/tendr. Ni ddylid cynnal di-briffio o'r fath cyn y gwneir y penderfyniad am ddyfarnu'r contract a bod yr holl Dendrwyr aflwyddiannus wedi cael gwybod na fuont yn llwyddiannus. Dylid bod yn glir na ellir defnyddio'r broses ddi-briffio i newid y dewis o Gontractwr neu i ail-agor y broses ddethol.

(iii) os gofynnir i unrhyw ddarpar gyflenwr dynnu'n ôl neu ei fod yn tynnu yn ôl yn ystod yr ymarferiad Caffael. Dim ond ar gais y Contractwr y bydd di-briffio yn cael ei wneud.

.26.4 Os yw dyfarniad y Contract yn ddarostyngedig i'r Rheoliadau, rhaid cael cyfnod segur o 10 diwrnod calendr fan leiaf rhwng cyfathrebu'r penderfyniad dyfarnu i'r holl Dendrwyr a diwedd y Contract.

**.27 CWBLHAU CONTRACTAU**

.27.1 Ac eithrio unrhyw Gontract sy'n cael ei lunio gan ddefnyddio deilliant archeb brynu ar system brynu electronig y Cyngor, rhaid i unrhyw Gontract sydd ag amcan werth o fwy na £50,000 fod:-

(i) yn ysgrifenedig;

(ii) wedi'i wneud dan sêl y Cyngor.

.27.2 Rhaid i gontractau gyda gwerth o £50,000 neu lai gael eu gwneud gan ddefnyddio:

(i) archeb brynu a grëwyd gan system brynu electronig y Cyngor, neu

(ii) ffurflen archeb swyddogol a gynhyrchwyd gan y Cyngor, neu

(iii) Contract ysgrifenedig.

**.28 RHEOLI CONTRACTAU**

.28.1 Unwaith y bydd y contract wedi cael ei ddyfarnu, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig adnabod ac enwebu unigolyn fydd yn rheoli agweddau dydd-i-ddydd y Contract dros ei gyfnod ac os bydd angen, cynllunio beth fydd yn digwydd unwaith i'r Contract ddod i ben (cynllunio ar gyfer unrhyw ymarferiad caffael angenrheidiol).

.28.2 Bydd y gwaith o reoli'r Contract o ddydd-i-ddydd yn cynnwys monitro o ran:-

(i) perfformiad

(ii) cydymffurfio â'r fanyleb a thelerau'r contract

(iii) cost

(iv) unrhyw ofynion gwerth am arian/gwerth gorau

(v) boddhad defnyddiwr, a

(vi) rheoli risg.

.28.3 Lle mae cyfanswm gwerth y Contract yn fwy na £250,000, rhaid i'r Swyddog Awdurdodedig lunio adroddiad ysgrifenedig i'r Pennaeth Gwasanaeth yn gwerthuso i ba raddau y mae'r Contract yn cwrdd â'r amcanion a osodwyd. Dylid gwneud hyn fel arfer pan mae'r Contract yn cael ei gwblhau ond o ran contractau tymor, dylid paratoi adroddiad o'r fath bob blwyddyn.

## .29 CONTRACTAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A'R CONTRACT 'LIGHT TOUCH'

.29.1 Mae fframwaith rheoleiddio penodol ar gyfer caffael contractau gwasanaethau cymdeithasol ac mae'r rhain yn cael sylw ar gyfer y ddau gontract sy'n syrthio o dan y Rheolau a'r Rheoliadau hyn. Mewn sawl ffordd, mae cytundebau o'r fath yn wahanol i gontractau am waith adeiladu, cyflenwadau swyddfa a chyfarpar TG. Mae caffael y mathau hyn o gontractau wedi'i gynnwys dan y trefniadau Contract 'Light Touch' (Adran 74 i 77 y Rheoliadau). Gweler restr lawn o'r gwasanaethau lle mae'r drefn 'light-touch' yn berthnasol yn Atodlen 3 Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (Atodlen A). Mae'r trothwyon gwerth lle mae'r Rheoliadau'n berthnasol wedi'u nodi yn adran .9.3 y Rheolau hyn.

.29.2 O ran ymarferion caffael lle mae'r Rheoliadau'n berthnasol, y prif ofynion mandadol yw:

a) Hysbysebu'r Tendr: Cyhoeddi hysbysiad contract neu hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw, ac eithrio lle y gallai sail i ddefnyddio'r weithdrefn wedi'i negodi heb alwad am gystadleuaeth fod wedi'i defnyddio, er enghraifft, pan nad oes ond un darparwr yn gallu cyflenwi'r gwasanaethau gofynnol.
b) Cyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract ar ôl pob ymarferiad caffael unigol, neu os yw'n well gennych, grwpio hysbysiadau o'r fath bob chwarter.
c) Cydymffurfio ag egwyddorion Cyfamod o dryloywder a thriniaeth gyfartal.
d) Cynnal yr ymarferiad caffael yn unol â'r wybodaeth a ddarperir yn yr hysbysiad contract neu'r hysbysiad gwybodaeth ymlaen llaw ynghylch: unrhyw amodau er mwyn cymryd rhan; cyfyngiadau amser o ran cysylltu neu ymateb i'r Cyngor; a'r drefn ddyfarnu i'w defnyddio.
e) Rhaid i gyfyngiadau amser a orfodir gan y CBC ar gyflenwyr, megis ar gyfer ymateb i hysbysebion a thendrau, fod yn rhesymol ac yn gymesur. Nid oes cyfnodau amser lleiaf wedi'u nodi yn rheolau'r drefn 'light-touch', felly dylai'r CBC ddefnyddio ei ddisgresiwn a'i farn fesul achos.

.29.3 O ran ymarferion caffael lle mae'r Rheolau hyn yn berthnasol, os bydd yr ymarferiad caffael yn syrthio islaw trothwy'r drefn 'light-touch', y prif ofynion mandadol yw:

a) Dylai trefniadau caffael sy'n is na'r trothwy ddyblygu rhannau eraill o'r Rheolau hyn i sicrhau gwerth am arian, y lefel ofynnol o ansawdd a pherfformiad.

b) Lle nad oes trefniadau cymeradwy presennol, rhaid ceisio'r nifer a ganlyn o ddyfynbrisiau a rhoi tystiolaeth o hynny:

i) Dim ond un dyfynbris sydd ei angen ar gyfer hyd at £5,000
ii) Mae angen tri dyfynbris ar gyfer rhwng £5,000 a £50,000
iii) Dylid cynnal trefn gaffael sydd wedi'i hysbysebu'n agored ac sydd ar gael, tra'n ceisio gwahodd o leiaf dri thendr ysgrifenedig

c) Defnyddir hyblygrwydd y drefn 'light-touch' gan hefyd gynnal gweithgarwch craffu sy'n cael ei gynnal yn agored, yn gywir a chydag atebolrwydd.

.29.4 Ystyriaethau pellach i gontractau gwasanaethau cymdeithasol a'r trefniadau Contract 'Light Touch'.

.29.4.1 Contractau wedi'u Cadw - Mae Rheoliad 77 yn darparu ar gyfer ymarferion caffael am gontractau gwasanaethau penodol i gael eu "cadw" ar gyfer sefydliadau sy'n bodloni meini prawf penodol. Gall y contractau hyn redeg am gyfnod uchafswm o 3 blynedd. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu bod modd cynnal cystadleuaeth yn unol â'r drefn contractau 'light touch' newydd yn rheolau caffael y DU lle mae cyfranogiad wedi'i gyfyngu i sefydliadau cymwys megis cyd-fentrau a mentrau cymdeithasol.

.29.4.2 Bydd yr un trefniant ar gyfer dyfarnu contractau wedi'u cadw yn gymwys i wasanaethau islaw'r trothwy sy'n cael ei gynnwys dan y drefn 'light touch'.

.29.4.3 Cyfnod Segur - Byddwn yn anfon hysbysiad segur ac yn gweithredu'r cyfnod segur am ymarferion caffael 'light touch' sydd wedi'u cynnwys dan y Rheoliadau yn unol â'r ‘Guidance on the Standstill Period’ a gyflwynwyd gan y Crown Commercial Service.

.29.4.4 Nid yw'r contractau o dan drothwy'r drefn 'light touch' angen gweithredu cyfnod segur. Fodd bynnag, dylid dyfarnu contractau yn unol ag adran .25 ac adrannau perthnasol .26 y Rheolau hyn.

## .30 ILDIO HAWL RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU

.30.1 Gall yr Aelod Cabinet perthnasol gytuno i ildio hawl os yw'n fodlon, wedi ystyried adroddiad ysgrifenedig gan y swyddog priodol, bod modd cyfiawnhau'r ildio hawl oherwydd:-

(i) mae natur y farchnad ar gyfer y gwaith i'w wneud neu'r nwyddau neu'r gwasanaethau i'w darparu wedi'i hymchwilio ac y gwelir bod modd cyfiawnhau gwyro oddi wrth ofynion Gorchmynion Sefydlog y

Contract, neu

(ii) mae amgylchiadau'r contract arfaethedig yn destun eithriadau deddfwriaethol; neu

(iii) mae hyn er budd cyffredinol y Cyngor; neu

(iv) mae amgylchiadau eraill sy'n wirioneddol eithriadol.

.30.2 Mae'n rhaid cadw cofnod o'r penderfyniad sy'n cymeradwyo ildio hawl a rhaid cadw'r rheswm am hynny a gwneud cofnod ar y gofrestr briodol.

.30.3 Nid oes grym i ddarparu ildiad hawl mewn perthynas â gofynion y Rheoliadau.

# ADRODDIAD I GYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD

**26/05/2023**

**Teitl:** Adroddiad Alldro a Ffurflen Flynyddol 2022/23

**Awduron:** Dewi A Morgan, Pennaeth Cyllid y CBC
Sian Pugh, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol y CBC

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu sefyllfa alldro terfynol 2022/23 i Gyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd a chael cymeradwyaeth i'r Ffurflen Flynyddol Swyddogol ar gyfer 2022/23.

## 2. Y PENDERFYNIADAU A GEISIR

**2.1 Nodi a derbyn gwir wariant ac incwm y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2022/23 fel y'i cyflwynwyd yn Atodiad 1.**

**2.2 Cael cymeradwyaeth y Cyd-bwyllgor Corfforedig i'r tanwariant yn 2022/23 gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar gyfer ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.**

**2.3 Cymeradwyo Ffurflen Flynyddol Swyddogol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig ar gyfer 2022/23 (amodol ar Archwiliad Allanol), yn unol â'r amserlen statudol, sef 31 Mai 2023. Mae wedi'i gwblhau a'i ardystio'n briodol gan Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd fel Swyddog Cyllid Statudol y Cyd-Bwyllgor Corfforedig (Atodiad 2).**

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1 Rhoi gwybod i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig am ei sefyllfa ariannol ar gyfer 2022/23 a chydymffurfio â'r gofynion statudol yn nhermau cwblhau'r Ffurflen Flynyddol.

**4. CEFNDIR**

4.1 Bydd y cyfrifon a’r ffurflen yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Os bydd angen newidiadau yna cyflwynir fersiwn diwygiedig i’r Cyd-Bwyllgor Corfforedig maes o law.

4.2 Ar ôl archwiliad ac yn dilyn unrhyw addasiadau fydd angen, bydd cynrychiolydd yr Archwilydd Cyffredinol yn ardystio’r ffurflen.

**5. GWARIANT AC INCWM 2022/23**

5.1 Mae Atodiad 1 yn dangos dadansoddiad manwl o'r gwariant a'r incwm fesul pennawd yn erbyn ei gyllideb flynyddol ar gyfer 2022/23, ac mae rhain yn cyfateb â'r ffigyrau yn y Ffurflen Flynyddol a ddangosir yn Atodiad 2.

5.2 Rhagwelwyd tanwariant o £59,777 yn adolygiad mis Medi a chymeradwyodd y Cyd-Bwyllgor Corfforedig i'r tanwariant gael ei drosglwyddo i gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau unwaith ac am byth yn y dyfodol.

5.3 Mae'r sefyllfa alldro net derfynol ar gyfer 2022/23, yn dangos tanwariant pellach o £178,321, i roi tanwariant terfynol o £238,098 ar gyfer 2022/23, a gofynnir am gymeradwyaeth i drosglwyddo hwn i'r gronfa wrth gefn sydd wedi'i chlustnodi. Mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig yn ei gyfarfod ar 13 Ionawr 2023 eisoes wedi cymeradwyo i £80,000 o'r gronfa hon gael ei ddefnyddio fel rhan o gyllideb 2023/24.

<u>Gweithwyr</u>

5.4 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £106,926. Mae'r gwariant ar is-bennawd y CBC yn cynnwys costau secondiad Prif Weithredwr Uchelgais Gogledd Cymru am ddeuddydd yr wythnos, ynghyd â chefnogaeth y Cynorthwyydd Gweithredol am un diwrnod yr wythnos. Mae'r costau cyflogaeth ar y pennawd Trafnidiaeth yn cynnwys secondiad yr Arweinydd Trafnidiaeth o Uchelgais Gogledd Cymru.

Teithio

5.5 Nid yw'r gyllideb teithio a chynhaliaeth wedi ei ddefnyddio yn 2022/23 sy'n gadael tanwariant o £4,000 am y flwyddyn.

Cyflenwadau a gwasanaethau

5.6 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £105,507 gyda dim ond gwariant ar dri o'r penawdau, sy'n cynnwys ffioedd Archwilio Cymru, ymgynghorwyr allanol a ddefnyddiwyd i sefydlu'r cyfriflyfr ariannol a chostau yswiriant.

Gwasanaethau Cefnogol

5.7 Y tanwariant terfynol ar y pennawd hwn yw £21,665. Mae costau cefnogol y Gwasanaethau Cyllid yn dangos gorwariant o £4,262 ac mae hyn oherwydd i gefnogaeth Swyddog Arweiniol y Prosiect CBC barhau’n hirach na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Mae gorwariant o £3,808 ar y costau cyfreithiol oherwydd bod ymgynghorydd cyfreithiol allanol wedi ei gomisiynu i wneud rhan o'r gwaith. Mae tanwariant ar y pennawd Cefnogaeth Gorfforaethol oherwydd y nifer llai o gyfarfodydd ffurfiol na ragwelwyd yn wreiddiol, ac nid oes gwariant ar y Technoleg Gwybodaeth gan nad oes swyddogion wedi'u penodi.

Treth ar Werth (TAW)

5.8 Ers 9 Chwefror 2023, mae'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig gyda statws “Adran 33”, sy'n golygu y gallent nawr adennill TAW ar eu trafodion ariannol. Yn wreiddiol, amcangyfrifwyd na fyddai modd adennill TAW a oedd yn ymwneud â'r cyfnod cyn 9 Chwefror 2023, ond gan na dderbyniwyd na thalwyd unrhyw anfonebau cyn y dyddiad hwn, bydd modd adennill y TAW ar yr holl wariant a gynhwysir yng nghyfrifon 2022/23.

**6. CYFRANIADAU PARTNERIAID**

6.1 Arhosodd cyfraniadau'r partneriaid drwy ardoll ar lefel y gyllideb ar gyfer 2022/23.

## 7. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

7.1 Fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor Corfforedig, oherwydd nad yw'r trosiant yn fwy na £2.5m yn 2022/23 baratoi ffurflen flynyddol, a rhaid paratoi hwn gan ddilyn arferion priodol yn unol â'r ddeddfwriaeth.

## 8. ATODIADAU

Atodiad 1 – Sefyllfa Alldro Refeniw Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2022/23.

Atodiad 2 - Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad hwn.

**Sefyllfa Alldro Refeniw Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd 2022/23** **Atodiad 1**

| Gwariant | Cynllunio Strategol (£) | Trafnidiaeth (£) | Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) (£) | Cyfanswm Cyllideb (£) | Cynllunio Strategol (£) | Trafnidiaeth (£) | Cyd-Bwyllgor Corfforedig (CBC) (£) | Cyfanswm Gwariant (£) | Gorwariant / (Tanwariant) (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | | | | | | | | | |
| Gwariant Gweithwyr (Cyflog, Y.G. a Blwydd-dal) | 64,260 | 99,330 | 0 | 163,590 | 0 | 28,926 | 32,738 | 61,664 | (101,926) |
| Lwfans aelodau lleyg | 0 | 0 | 5,000 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (5,000) |
| **Cyfanswm Gweithwyr** | **64,260** | **99,330** | **5,000** | **168,590** | **0** | **28,926** | **32,738** | **61,664** | **(106,926)** |
| **Teithio** | | | | | | | | | |
| Teithio a chynhaliaeth | 2,000 | 2,000 | 0 | 4,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (4,000) |
| **Cyfanswm Teithio** | **2,000** | **2,000** | **0** | **4,000** | **0** | **0** | **0** | **0** | **(4,000)** |
| **Cyflenwadau a gwasanaethau** | | | | | | | | | |
| Offer a chyfarpar | 4,500 | 3,000 | 0 | 7,500 | 0 | 0 | 0 | 0 | (7,500) |
| Cyflenwadau amrywiol | 1,000 | 1,000 | 0 | 2,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (2,000) |
| Ymgysylltu a chyfarfodydd | 720 | 720 | 3,560 | 5,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | (5,000) |
| Ffioedd Archwilio Cymru | 0 | 0 | 20,000 | 20,000 | 0 | 0 | 4,000 | 4,000 | (16,000) |
| Ymgynghorwyr allanol | 0 | 55,000 | 12,900 | 67,900 | 0 | 0 | 5,093 | 5,093 | (62,807) |
| Yswiriant | 7,500 | 7,500 | 0 | 15,000 | 0 | 0 | 2,800 | 2,800 | (12,200) |
| **Cyfanswm Cyflenwadau a gwasanaethau** | **13,720** | **67,220** | **36,460** | **117,400** | **0** | **0** | **11,893** | **11,893** | **(105,507)** |
| **Gwasanaethau Cefnogol** | | | | | | | | | |
| Cefnogaeth Gwasanaethau Cyllid | 0 | 0 | 25,100 | 25,100 | 0 | 0 | 29,362 | 29,362 | 4,262 |
| Cyfreithiol (yn cynnwys y Swyddog Monitro) | 0 | 0 | 10,140 | 10,140 | 0 | 0 | 13,948 | 13,948 | 3,808 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 5,830 | 5,320 | 19,360 | 30,510 | 0 | 0 | 7,295 | 7,295 | (23,215) |
| Technoleg Gwybodaeth | 2,140 | 1,430 | 2,950 | 6,520 | 0 | 0 | 0 | 0 | (6,520) |
| **Cyfanswm Gwasanaethau Cefnogol** | **7,970** | **6,750** | **57,550** | **72,270** | **0** | **0** | **50,605** | **50,605** | **(21,665)** |
| **Cyfanswm Gwariant** | **87,950** | **175,300** | **99,010** | **362,260** | **0** | **28,926** | **95,236** | **124,162** | **(238,098)** |
| **Trosglwyddiad i / (o'r) gronfa wrth gefn** | | | | | **87,950** | **146,374** | **3,774** | **238,098** | **238,098** |
| **Cyfanswm ar ôl y trosglwyddiad i'r gronfa wrth gefn** | | | | | **87,950** | **175,300** | **99,010** | **362,260** | **0** |

| Incwm | Cynllunio Strategol (£) | Swyddogaethau eraill (£) | Cyfanswm Ardoll (£) | Cynllunio Strategol (£) | Swyddogaethau eraill (£) | Cyfanswm Ardoll (£) | Gwahaniaeth (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfraniadau Partneriaid drwy ardoll** | | | | | | | |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | (14,270) | (46,220) | (60,490) | (14,270) | (46,220) | (60,490) | 0 |
| Cyngor Sir Ddinbych | (12,030) | (37,530) | (49,560) | (12,030) | (37,530) | (49,560) | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | (19,700) | (61,450) | (81,150) | (19,700) | (61,450) | (81,150) | 0 |
| Cyngor Gwynedd | (13,090) | (48,910) | (62,000) | (13,090) | (48,910) | (62,000) | 0 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | (8,750) | (27,290) | (36,040) | (8,750) | (27,290) | (36,040) | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | (16,970) | (52,910) | (69,880) | (16,970) | (52,910) | (69,880) | 0 |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) | (3,140) | | (3,140) | (3,140) | | (3,140) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(87,950)** | **(274,310)** | **(362,260)** | **(87,950)** | **(274,310)** | **(362,260)** | **0** |

| ***Poblogaeth perthnasol*** | ***Amcanion poblogaeth 2022*** | |
|---|---|---|
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy* | *113,951* | *118,319* |
| *Cyngor Sir Ddinbych* | *96,021* | *96,021* |
| *Cyngor Sir y Fflint* | *157,264* | *157,264* |
| *Cyngor Gwynedd* | *104,503* | *125,220* |
| *Cyngor Sir Ynys Môn* | *69,864* | *69,864* |
| *Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam* | *135,466* | *135,466* |
| *Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)* | *25,085* | |
| ***Cyfanswm poblogaeth*** | ***702,154*** | ***702,154*** |

# Ffurflen Flynyddol Cydbwyllgorau Llai yng Nghymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i Ben 31 Mawrth 2023

## Datganiadau cyfrifyddu 2022-23 ar gyfer:

**Enw'r corff:** Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben | | Nodiadau a chanllawiau i'r sawl sy'n llunio'r cyfrifon |
|---|---|---|---|
| | **31 Mawrth 2022 (£)** | **31 Mawrth 2023 (£)** | **Dylech dalgrynnu'r holl ffigyrau i'r £ agosaf. Peidiwch â gadael unrhyw flychau yn wag gan gofnodi balansau o £0 neu ddim. Rhaid i bob ffigwr fod yn gyson â'r cofnodion ariannol sylfaenol ar gyfer y flwyddyn berthnasol.** |
| **Datganiad o incwm a gwariant/derbyniadau a thaliadau** | | | |
| **1.** Balansau a ddygwyd ymlaen | 0 | 0 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddechrau'r flwyddyn fel y'u cofnodwyd yn y cofnodion ariannol. Rhaid iddo fod yn gyson â llinell 7 y flwyddyn flaenorol. |
| **2.** (+) Incwm o drethiant lleol/ardoll | 0 | 362,260 | Cyfanswm yr incwm a dderbyniwyd/derbyniadwy yn ystod y flwyddyn o drethiant lleol (praesept) neu ardoll/cyfraniad gan brif gyrff. |
| **3.** (+) Cyfanswm derbyniadau eraill | 0 | 0 | Cyfanswm incwm neu dderbyniadau a gofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn y symiau a gynhwysir yn llinell 2. Mae'n cynnwys grantiau cymorth, dewisol a refeniw. |
| **4.** (-) Costau staff | 0 | -61,664 | Cyfanswm gwariant neu daliadau a wnaed i bob gweithiwr cyflogedig ac ar ei ran. Dylech gynnwys cyflogau, TWE ac Yswiriant Gwladol (cyflogeion a chyflogwyr), cyfraniadau pensiwn a threuliau cysylltiedig, e.e. costau terfynu. |
| **5.** (-) Llog ar fenthyciadau/ ad-daliadau cyfalaf | 0 | 0 | Cyfanswm gwariant neu daliadau cyfalaf a llog a wnaed yn ystod y flwyddyn ar fenthyciadau allanol (os o gwbl). |
| **6.** (-)Cyfanswm taliadau eraill | 0 | -62,498 | Cyfanswm gwariant neu daliadau fel y'u cofnodwyd yn y llyfr arian parod namyn costau staff (llinell 4) a llog ar fenthyciadau/ad-daliadau cyfalaf (llinell 5). |
| **7.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 0 | 238,098 | Cyfanswm y balansau a'r cronfeydd wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhaid iddo fod yn hafal i (1+2+3) – (4+5+6). |
| **Datganiad o falansau** | | | |
| **8.** (+) Dyledwyr | 0 | 230,380 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth dyledion sy'n ddyledus i'r corff. |
| **9.** (+) Cyfanswm arian parod a buddsoddiadau | 0 | 131,880 | **Pob cyfrif:** Swm yr holl gyfrifon banc cyfredol a chadw, daliadau ariannol a buddsoddiadau a ddelir ar 31 Mawrth. Rhaid i hyn fod yn gyson â balans cysoni'r llyfr arian parod yn unol â'r cysoniad banc. |
| **10.** (-) Credydwyr | 0 | -124,162 | **Cyfrifon incwm a gwariant yn unig:** Nodwch werth yr arian sy'n ddyledus gan y corff (heblaw costau benthyg) ar ddiwedd y flwyddyn. |
| **11.** (=) Balansau a gariwyd ymlaen | 0 | 238,098 | **Dylai cyfanswm y balansau fod yn hafal i linell 7 uchod:** Nodwch gyfanswm (8+9-10). |
| **12.** Cyfanswm asedau sefydlog ac asedau hirdymor | 0 | 0 | Gwerth cofrestr asedau a buddsoddiadau pob ased sefydlog, ynghyd ag unrhyw asedau hirdymor eraill a ddelir ar 31 Mawrth. |
| **13.** Cyfanswm benthyciadau | 0 | 0 | Balans cyfalaf dyledus pob benthyciad gan drydydd partïon ar 31 Mawrth (gan gynnwys PWLB). |

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym yn cydnabod, fel aelodau o'r Pwyllgor, ein cyfrifoldeb am sicrhau bod system rheolaeth fewnol gadarn ar waith, gan gynnwys paratoi'r datganiadau cyfrifyddu. Rydym yn cadarnhau, hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, o ran y datganiadau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, ein bod wedi gwneud y canlynol:

| | Cytunwyd? | | Mae 'DO' yn golygu bod y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor wedi gwneud y canlynol: | Cyf y Canllaw i Ymarferwyr |
|---|---|---|---|---|
| | Do | Naddo* | | |
| **1.** Rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn; a<br>• pharatoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | ◉ | ○ | Pennu ei gyllideb a rheoli ei arian yn briodol a pharatoi a chymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu fel a ragnodir gan y gyfraith. | 6, 12 |
| **2.** Cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredigaeth, ac adolygu ei heffeithiolrwydd. | ◉ | ○ | Gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am warchod yr arian cyhoeddus a'r adnoddau dan ei reolaeth. | 6, 7 |
| **3.** Cymryd yr holl gamau rhesymol i roi sicrwydd i ni'n hunain nad oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau na chodau ymarfer a allai gael effaith ariannol sylweddol ar allu'r Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei sefyllfa ariannol. | ◉ | ○ | Ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. | 6 |
| **4.** Darparu cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | ◉ | ○ | Rhoi'r cyfle i bob unigolyn â buddiant archwilio cyfrifon y corff yn unol â'r hyn a nodir yn yr hysbysiad o'r archwiliad. | 6, 23 |
| **5.** Cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Pwyllgor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle y bo angen. | ◉ | ○ | Ystyried y risgiau ariannol a'r risgiau eraill a wynebir ganddo wrth weithredu'r corff ac ymdrin â hwy'n briodol. | 6, 9 |
| **6.** Cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol ar gyfer y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | ◉ | ○ | Trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar ba un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff. | 6, 8 |
| **7.** Ystyried a oes unrhyw ymgyfreithiad, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodion, a ddigwyddodd naill ai yn ystod y flwyddyn neu ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, yn cael effaith ariannol ar y Pwyllgor a, lle y bo'n briodol, wedi eu cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | ◉ | ○ | Datgelu popeth y dylai fod wedi ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau a ddigwyddodd ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben os ydynt yn berthnasol. | 6 |
| **8.** Cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phob mater a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwilwyr mewnol ac allanol. | ◉ | ○ | Ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau a ddygwyd i'w sylw gan archwilwyr mewnol ac allanol. | 6, 8, 23 |

* Ar ddalen ar wahân, rhowch esboniadau i'r archwilydd allanol ar gyfer pob ymateb 'naddo' a roddwyd; a disgrifiwch pa gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd.

## Nodiadau datgelu ychwanegol*

| Darperir yr wybodaeth ganlynol i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol |
|---|
| **1.** |
| **2.** |
| **3.** |

* Dylid cynnwys yma unrhyw ddatgeliadau ychwanegol sy'n angenrheidiol yn nhyb y Cyngor i gynorthwyo'r darllenydd i ddeall y datganiadau cyfrifyddu a/neu'r datganiad llywodraethu blynyddol.

## Cymeradwyaeth ac ardystiad y Pwyllgor

Y Pwyllgor sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau cyfrifyddu a'r datganiad llywodraethu blynyddol yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (y Ddeddf) a Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

| **Ardystiad gan y Swyddog Cyllid Cyfrifol**<br>Ardystiaf fod y datganiadau cyfrifyddu yn y Ffurflen Flynyddol hon yn rhoi darlun teg o sefyllfa ariannol y Pwyllgor, a'i incwm a'i wariant, neu'n cyflwyno'r derbyniadau a'r taliadau'n briodol, yn ôl y digwydd, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023. | **Cymeradwyaeth gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor**<br>Cadarnhaf fod y datganiadau cyfrifyddu hyn a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi eu cymeradwyo gan y Pwyllgor o dan gyfeirnod cofnod: |
|---|---|
| | **Cyfeirnod cofnod:** |
| **Llofnod y Swyddog Cyllid Cyfrifol:**<br> | **Llofnod Cadeirydd y cyfarfod:** |
| **Enw:** Dewi Aeron Morgan | **Enw:** |
| **Dyddiad:** 18/05/2023 | **Dyddiad:** |

## Adroddiad archwilio mewnol Blynyddol ar gyfer:

**Enw'r corff:** Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd

Mae archwiliad mewnol y Pwyllgor, gan weithredu'n annibynnol ac ar sail asesiad o risg, wedi cynnwys cynnal asesiad dewisol o gydymffurfiaeth â'r gweithdrefnau a'r rheolaethau perthnasol y disgwylir iddynt fod ar waith yn ystod y flwyddyn ariannol sy'n dod i ben 31 Mawrth 2023.

Cynhaliwyd yr archwiliad mewnol yn unol ag anghenion y Pwyllgor a'r gwaith a drefnwyd. Ar sail y canfyddiadau yn y meysydd a archwiliwyd, ceir crynodeb o gasgliadau'r archwiliad mewnol yn y tabl hwn. Nodir isod amcanion rheolaeth fewnol a chasgliadau'r archwiliad mewnol ar ôl ystyried a oedd yr amcanion canlynol o ran rheolaeth, ym mhob ffordd bwysig, yn cael eu bodloni drwy gydol y flwyddyn ariannol i safon sy'n ddigonol i ddiwallu anghenion y Pwyllgor.

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o'r gwaith a wnaed fel rhan o'r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i'r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Do** | **Naddo*** | **Amh.** | **Heb ei gynnwys **** | |
| **1.** Mae'r llyfrau cyfrifon priodol wedi'u cadw'n briodol drwy gydol y flwyddyn. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **2.** Bodlonwyd rheoliadau ariannol, ategwyd taliadau gan anfonebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **3.** Asesodd y corff y risgiau sylweddol i gyflawni ei amcanion ac adolygodd ddigonolrwydd y trefniadau ar gyfer eu rheoli. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **4.** Deilliodd y gofyniad blynyddol am braesept/ardoll/adnoddau o broses gyllidebu ddigonol, cafodd cynnydd yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n rheolaidd, ac roedd y cronfeydd wrth gefn yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **5.** Cafodd yr incwm disgwyliedig ei dderbyn yn llawn, ar sail prisiau cywir, ei gofnodi'n briodol a'i fancio'n brydlon, a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **6.** Ategwyd taliadau arian mân yn briodol gan dderbynebau, cymeradwywyd gwariant a rhoddwyd cyfrif priodol am TAW. | ○ | ○ | ● | ○ | Mewnosodwch destun |
| **7.** Talwyd cyflogau i gyflogeion a lwfansau i aelodau yn unol â chymeradwyaethau a gofnodwyd, a chymhwyswyd gofynion TWE ac Yswiriant Gwladol yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **8.** Roedd y cofrestrau asedau a buddsoddiadau yn gyflawn, yn gywir, ac yn cael eu cynnal yn briodol. | ○ | ○ | ● | ○ | Mewnosodwch destun |

| | Cytunwyd? | | | | Amlinelliad o’r gwaith a wnaed fel rhan o’r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i’r corff) |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Do** | **Naddo*** | **Amh.** | **Heb ei gynnwys **** | |
| **9.** Cafodd cysoniadau cyfrifon banc cyfnodol ac ar ddiwedd y flwyddyn eu cynnal yn briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **10.** Cafodd datganiadau cyfrifyddu a baratowyd yn ystod y flwyddyn eu paratoi ar y sail cyfrifyddu gywir (derbyniadau a thaliadau/incwm a gwariant), roeddent yn gyson â’r llyfr arian parod, wedi’u hategu gan drywydd archwilio digonol o gofnodion sylfaenol, a, lle y bo’n briodol, cafodd dyledwyr a chredydwyr eu cofnodi’n briodol. | ● | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |

| **Roedd rheolaethau digonol yn bodoli ar gyfer unrhyw feysydd risg a nodwyd gan y Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor (rhestrwch unrhyw feysydd risg eraill isod neu ar dudalennau ar wahân os oes angen):** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cytunwyd?** | | | | **Amlinelliad o’r gwaith a wnaed fel rhan o’r archwiliad mewnol (DS nid oes angen hyn os cyflwynwyd adroddiad archwilio mewnol manwl i’r corff)** |
| | **Do** | **Naddo*** | **Amh.** | **Heb ei gynnwys**** | |
| **11.** Nodwch y maes risg | ○ | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **12.** Nodwch y maes risg | ○ | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |
| **13.** Nodwch y maes risg | ○ | ○ | ○ | ○ | Mewnosodwch destun |

* Os atebwyd ‘naddo’, nodwch y goblygiadau a’r camau sy’n cael eu cymryd i fynd i’r afael ag unrhyw wendid rheoli a nodwyd (ychwanegwch dudalennau ar wahân os oes angen).

** Os atebwyd ‘heb ei gynnwys’, nodwch pryd y gwnaethpwyd y gwaith archwilio mewnol mwyaf diweddar yn y maes hwn a phryd y bwriedir ei wneud nesaf, neu os nad oes angen ei gynnwys, rhaid i’r archwilydd mewnol esbonio pam nad oes angen hynny.

Mae fy nghanfyddiadau manwl a’m hargymhellion yr wyf yn eu dwyn i sylw’r Pwyllgor wedi’u cynnwys yn fy adroddiad manwl i’r Pwyllgor dyddiedig Mai 2023

## Cadarnhau archwiliad mewnol

Yr wyf fi/Yr ydym ni yn cadarnhau nad wyf i/ydym ni, fel archwilydd mewnol y Pwyllgor, wedi ymgymryd â swyddogaeth reoli na gweinyddol o fewn y corff (gan gynnwys paratoi’r cyfrifon) nac fel aelod o’r corff yn ystod y blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23. Cadarnhaf hefyd na fu unrhyw achos o wrthdaro buddiannau ynghylch fy mhenodiad.

| |
|---|
| **Enw’r unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol: Bleddyn Rhys** |
| **Llofnod yr unigolyn a gynhaliodd yr archwiliad mewnol:** *Bleddyn Rhys* |
| **Dyddiad: 15/05/2023** |